

# Adroddiad Arolygu Ysbyty (Dirybudd)

Yr Adran Achosion Brys (ac  
Ardaloedd Asesu), Ysbyty Treforys,  
Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Dyddiad yr arolygiad: 5, 6 a 7 Medi 2022

Dyddiad cyhoeddi: 8 Rhagfyr 2022



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163  
E-bost: [AGIC@llyw.cymru](mailto:AGIC@llyw.cymru)  
Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

## Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



# Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom
2. Crynodeb o'r arolygiad
3. Yr hyn a nodwyd gennym
  - Ansawdd Profiad y Claf
  - Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol
  - Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth
4. Y camau nesaf

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Atodiad C - Cynllun gwella

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd o'r Adran Achosion Brys yn Ysbyty Treforys, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ar 5, 6 a 7 Medi 2022. Gwnaethom hefyd arolygu nifer o'r ardaloedd asesu fel rhan o'r arolygiad hwn. Adolygwyd yr ardaloedd canlynol:

- Yr Adran Achosion Brys
- Yr Uned Achosion Brys Plant
- Yr Uned Gwneud Penderfyniadau Llawfeddygol
- Yr Uned Asesu Cyflym

Gwnaethom siarad hefyd ag aelodau o'r staff yn y Gwasanaeth Asesu Pobl Hŷn, ond nid ymwelwyd â Ward D (Yr Uned Asesu Meddygol) yn ystod yr arolygiad hwn.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau Uwch-arolygydd Gofal Iechyd AGIC, tri adolygydd cymheiriaid clinigol ac un adolygydd profiad cleifion. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o Uwch-arolygwyr Gofal Iechyd AGIC.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

## 2. Crynodeb o'r arolygiad

### Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Nid oedd y cleifion bob amser yn cael y profiad y dylent ddisgwyl ei gael. Mae hyn oherwydd diffyg gofal a thriniaethau amserol, er gwaethaf ymdrechion cyson gan y bwrdd iechyd i wella llif cleifion. Fodd bynnag, roedd y cleifion yn fodlon ar y cyfan ar y gofal a ddarparwyd gan y staff unwaith y byddent yn cael eu gweld.

Nid oedd yr amgylchedd yn addas ar gyfer cynnal preifatrwydd ac urddas y cleifion o ganlyniad i nifer y cleifion a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth. Gwelsom aelodau o'r staff yn gwneud ymdrechion i'w cynnal, er gwaethaf y gofod cyfyngedig a oedd ar gael.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Adolygu'r defnydd a wneir o seddau addas ac argaeledd seddau o'r fath
- Preifatrwydd ac urddas y cleifion.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Gwelsom aelodau o'r staff yn siarad â'r cleifion mewn ffordd gwrtais, broffesiynol ac urddasol.
- Mynegodd y cleifion eu bod yn fodlon ar y cyfan ar y ffordd roedd y staff yn rhyngweithio â nhw.

### Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Ar y cyfan, roedd y cleifion yn derbyn gwasanaeth diogel, ond roedd diffyg gofal a thriniaethau amserol ar adegau o ganlyniad i lif cleifion gwael yn yr adran a'r ysbyty ehangach yn cael effaith negyddol ar hyn.

Mae angen adolygu agweddau ar atal a rheoli heintiau er mwyn sicrhau y caiff y risgiau i'r staff, cleifion ac ymwelwyr eu dileu neu eu lleihau.

Roedd gennym nifer o bryderon mewn perthynas â maeth yn yr Adran Achosion Brys y mae'n rhaid iddynt gael eu hadolygu o ystyried y cyfnodau o amser y mae'r cleifion yn aros yn yr adran a'r ysbyty ehangach.

Achosion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:

- Gwelsom nad oedd y cleifion bob amser yn cael eu brysbennu, eu hadolygu na'u trin mewn modd amserol.

Uwchgyfeiriwyd ein pryderon drwy ein proses sicrwydd ar unwaith. Ceir manylion am hyn yn [Atodiad B](#).

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Lefelau staffio nyrsys pediatrig
- Agweddau ar atal a rheoli heintiau
- Maeth cleifion
- Agweddau ar gadw cofnodion.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Mentrau Nyrsys Cyswllt, er enghraifft arbenigwyr profedigaeth a diogelu
- Rhai llwybrau cleifion penodol e.e. y Gwasanaeth Asesu Pobl Hŷn.

## Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Ar y cyfan, gwelsom fod y staff ym mhob rôl yn ymrwymedig i ddarparu lefel dda o ofal er gwaethaf y pwysau. Roedd y timau rheoli clinigol ac anghlinigol yn gwneud ymdrechion i roi cymorth priodol ac i sicrhau bod yr Adran Achosion Brys a'r ardaloedd asesu yn parhau i redeg yn effeithiol.

Roedd ymatebion y staff i holiadur AGIC yn gymysg ac rydym yn annog y bwrdd iechyd yn gryf i sicrhau bod sianeli cyfathrebu priodol ar gael i'r staff roi adborth.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Diffygion staffio a'r cymysgedd sgiliau
- Agweddau ar hyfforddi a datblygu'r staff.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Mynegodd staff yr Adran Achosion Brys safbwyntiau cadarnhaol ynghylch arweinyddiaeth Band 7 a chymorth gan eu rheolwyr llinell uniongyrchol.

## 3. Yr hyn a nodwyd gennym

### Ansawdd Profiad y Claf

#### Adborth gan Gleifion

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ddefnyddio holiaduron i gasglu barn ac adborth gan gleifion a gofalwyr. Cwblhawyd cyfanswm o 8 holiadur. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

*“Gwasanaeth da iawn yn yr Uned Asesu Cyflym ac roedd y staff yn ardderchog. Fodd bynnag, roedd gwasanaeth yr Adran Achosion Brys yn wael iawn. Ar ôl cael fy nerbyn, roedd yr ychydig ddiwrnodau cyntaf yn yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys yn anodd iawn. Roeddwn mewn poen, yn methu â chysgu ac yn eistedd mewn cadair...”*

*“Ni chefais gynnig unrhyw fwyd yn yr Adran Achosion Brys”*

*“Mae angen hysbysu'r claf yn rheolaidd. Yn ôl asesiad a gefais am 9am, roedd angen gwrthfotigau mewnwythiennol arnaf, ond am 14.40 roeddwn yn dal i aros”*

*“Pe na byddem wedi ffonio ysgrifenyddes y llawfeddyg, fwy na thebyg y byddai fy merch yn dal i aros. Mae angen archwilio'r system gyfan”*

*“Cefais fy mrysbennu i ddechrau ac wedyn gofynnwyd i mi ddychwelyd i'r ardal aros. Wedyn aeth fy wyneb yn ddiymadferth a chefais fy symud yn frysioig i'r adran ddadebru. Cefais fy nerbyn i'r ysbyty ddwywaith yn ddiweddar, a chefais fy anfon adref y ddau dro.”*

Gwnaethom hefyd siarad â sawl un o'r cleifion a'u perthnasau / gofalwyr yn ystod yr arolygiad i'n helpu i lunio barn am ansawdd profiad y claf.

#### Cadw'n Iach

##### Diogelu a Gwella Iechyd

Gwelsom fod rhywfaint o wybodaeth hybu iechyd a chymorth iechyd wedi'i harddangos o amgylch yr Adran Achosion Brys a'r ardaloedd asesu. Esboniodd y staff fod y rhan fwyaf o'r deunydd copi caled wedi cael ei waredu oherwydd COVID-19. Dylai'r bwrdd iechyd ystyried ailgyflwyno deunydd perthnasol mewn ardaloedd hygyrch i'r cleifion a'u perthnasau.



## Gofal ag urddas

### Gofal ag urddas

Roedd pob un o'r cleifion ond dau a gwblhaodd holiadur AGIC yn cytuno fod y staff yn eu trin ag urddas a pharch. Gwelsom aelodau o'r staff yn siarad â'r cleifion mewn ffordd gwrtais, broffesiynol ac urddasol bob amser.

Roedd y cyfleoedd i sicrhau preifatrwydd ac urddas y cleifion yn ardaloedd aros yr Adran Achosion Brys yn gyfyngedig. Roedd yr ardaloedd hyn yn aml yn orlawn yn ystod yr arolygiad ac yn gyffredinol, roedd y cleifion yn eistedd yn yr ardaloedd hyn am gyfnodau gormodol o amser. Roedd hyn yn cynnwys cleifion a oedd yn eistedd mewn cadeiriau plastig caled dros nos weithiau.

Gwelsom nifer o enghreifftiau hefyd lle na chafodd preifatrwydd ac urddas y cleifion eu cynnal yn ddigonol yn yr Adran Achosion Brys na'r Ardaloedd Asesu:

- Wrth i ni edrych o amgylch yr ardal aros, gwelsom fod un claf yn gorwedd ar lawr y coridor a dywedodd y perthynas wrthym ei fod wedi dychwelyd adref i gasglu gobennydd gan fod y claf mor anghysurus. Gwnaethom ofyn i'r nyrs â chyfrifoldeb edrych ar sefyllfa'r claf ar y pryd.
- Yn yr ardal Mân Anafiadau, gwelsom glaf hŷn yn cysgu dros nos ar sedd amhriodol heb roi blanced na gobennydd iddo.
- Yn yr Uned Gwneud Penderfyniadau Llawfeddygol, nid oedd yr ardal aros yn diwallu anghenion y cleifion am resymau tebyg. Er bod ymdrechion yn cael eu gwneud i osgoi sefyllfaoedd lle byddai'r cleifion yn aros yn yr ardal hon dros nos, nodwyd gennym fod cleifion yn cysgu ar seddau plastig caled, amhriodol weithiau.
- Roedd y cleifion a oedd yn cyrraedd mewn ambiwlans yn cael gofal gan y gwasanaeth ambiwlans a staff yr ysbyty yn ystod y cyfnod pan oeddent yn aros i gael eu derbyn i'r ysbyty. Gwelsom fod urddas y cleifion yn cael ei gynnal cymaint â phosibl, ond nodwyd fod y llif cleifion gwael yn yr ysbyty ehangach yn cyfyngu ar hyn. Er gwaethaf y sefyllfa, nodwyd gennym fod system dda ar waith rhwng staff yr Adran Achosion Brys a staff y gwasanaeth ambiwlans i sicrhau bod hanfodion gofal, fel rhoi meddyginiaethau lleddf fu poen, yn cael eu cyflawni pan fo angen.
- Nodwyd gennym ar ddau achlysur yn yr ardal Anafiadau Difrifol fod cleifion ar droliâu wedi cael eu rhoi rhwng cilfannau cleifion. Dywedwyd wrth y staff wrthym fod sgriniau symudol ar gael, ond nid oeddent yn cael eu defnyddio

ac nid yw lleoli cleifion yn y fath fodd yn hyrwyddo lefel ddigonol o breifatrwydd ac urddas i'r cleifion hynny nac i eraill yn yr ardal gyfagos.

**Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r defnydd a wneir o seddau addas yn yr adran ac argaeledd seddau o'r fath. Rhaid i'r bwrdd iechyd hefyd sicrhau bod digon o obenyddion a blancedi ar gael.**

**Rhaid i'r bwrdd iechyd hefyd sicrhau y caiff y broses o leoli cleifion yn yr adran ei hadolygu er mwyn hyrwyddo preifatrwydd ac urddas.**

Gwelsom fod urddas yn cael ei gynnal ar y cyfan yn ardaloedd eraill o'r adran, a gwelsom fod ymdrechion wedi'u gwneud i ystyried anghenion grwpiau cleifion penodol. Er enghraifft, cilfannau tawelach dynodedig i gleifion yr oedd angen mwy o oruchwyliaeth arnynt, uned achosion brys bediatrig ddynodedig a llwybrau uniongyrchol, fel y gwasanaeth asesu pobl hŷn, er mwyn osgoi ôl troed y brif Adran Achosion Brys.

Roedd staff nyrsio yn yr Adran Achosion Brys yn darparu gwasanaeth profedigaeth nodedig er mwyn helpu i gefnogi perthnasau cleifion sydd wedi marw. Clywsom sawl enghraifft gadarnhaol o'r cymorth a roddir yn union ar ôl colli rhywun annwyl ac yn y cyfnod byrdymor wedi hynny.

### **Cyfathrebu'n effeithiol a gwybodaeth i gleifion**

Gwelsom aelodau o'r staff yn siarad â'r cleifion mewn ffordd gwrtais, broffesiynol ac urddasol bob amser yn ystod yr arolygiad. Fodd bynnag, dywedodd rhai o'r cleifion yn y brif Adran Achosion Brys wrthym y byddent wedi gwerthfawrogi cael mwy o amser wrth gael esboniadau am eu gofal a'u triniaeth. Er gwaethaf hyn, dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion wrthym eu bod yn teimlo bod y staff yn gwrando arnynt.

Gwelsom fod rhai aelodau o'r staff yn yr Adran Achosion Brys yn gwisgo bathodyn 'laith Gwaith' i ddangos eu bod yn gallu cyfathrebu'n ddwyieithog (Cymraeg/Saesneg) ac ar y cyfan, roedd y prif arwyddion a oedd i'w gweld ym mhob rhan o'r adran yn ddwyieithog. Gwelsom un claf nad oedd yn gallu siarad Saesneg a oedd yn cael cymorth gan aelod o'i deulu i gyfieithu manylion ei ofal a'i driniaeth.

**Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'r gwasanaethau cyfieithu swyddogol sydd ar gael er mwyn sicrhau llif gwybodaeth briodol rhwng y claf a'r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol.**

Nid oedd amseroedd aros i gleifion yn yr Adran Achosion Brys yn cael eu harddangos a byddai'n rhaid i'r cleifion siarad ag aelod o'r staff os oeddent am gael y wybodaeth ddiweddaraf.

Roedd arwyddion dwyieithog priodol i'w gweld ym mhob rhan o'r Adran Achosion Brys ac yn yr Ardaloedd Asesu.

## Gofal amserol

### Mynediad Amserol

Roedd yr Adran Achosion Brys yn orlawn drwy gydol yr arolygiad, gan effeithio ar fynediad amserol i ofal. Roedd pwysau sylweddol wrth 'ddrws ffrynt' yr Adran Achosion Brys, sef yr ardaloedd aros i gleifion sy'n cerdded i mewn a'r gilfan gyrraedd i ambiwlansys. Roedd hyd at naw ambiwlans y tu allan i'r adran ar unrhyw un adeg, ond roedd hyn yn amrywio wrth i'r cleifion gael eu trosglwyddo i'r adran.

Roedd ardaloedd aros yr Adran Achosion Brys yn orlawn drwy gydol yr arolygiad. Fodd bynnag, parhaodd ardaloedd eraill o'r adran yn gymharol dawel er gwaethaf y nifer uchel o gleifion a oedd wedi'u lleoli yn yr ardaloedd hyn.

Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw ac a gwblhaodd holiadur AGIC fod y problemau a oedd yn gysylltiedig â'r llif cleifion yn yr ysbyty a'r system ehangach yn hirsefydledig. Dywedwyd wrthym fod nifer y cleifion sy'n dod i'r Adran Achosion Brys a'r ffaith nad oedd modd rhyddhau cleifion a oedd yn ffit yn feddygol yn achosi oedi sylweddol yn y gallu i weld y cleifion a'u trin mewn modd amserol.

Dywedodd y staff wrthym mewn ymateb i awgrymiadau o ran sut y gallai'r Adran Achosion Brys wella er mwyn diwallu anghenion y cleifion yn well:

*“Gwell argaeledd o ran gwasanaethau cymunedol er mwyn gallu rhyddhau cleifion yn haws/mewn ffordd fwy amserol o'r Adran Achosion Brys (ac o wardiau fel bod mwy o welyau ar gael wedyn i gleifion o'r Adran Achosion Brys y mae gwir eu hangen arnynt).”*

*“Cyfleusterau asesu priodol er mwyn osgoi gweld cleifion mewn ardaloedd aros neu ar droliâu.”*

*“Datblygu polisiau swyddogol ar gyfer rhyddhau cleifion ac ailgyfeirio cleifion o'r adran frysbenneu. Mae'r rhan fwyaf o benderfyniadau i ryddhau cleifion wrth frysbenneu yn dibynnu ar brofiad nyrsys brysbenneu a'u hyder wrth anfon unigolion adref...”*

*“Mae gan bob arbenigedd ardal asesu unigol y gall cleifion a gaiff eu hatgyfeirio fynd iddi yn lle dod i'r Adran Achosion Brys... Manylion cyswllt clir ar gyfer pwy sy'n gofalu am gleifion a atgyfeiriwyd at arbenigeddau penodol sydd wedi bod yn yr adran am ddyddiau.”*

Gwnaethom fynychu amrywiaeth o gyfarfodydd rheoli'r safle, cyfarfodydd llif cleifion a chyfarfodydd trosglwyddo. Nodwyd gennym fod pob tîm yn gweithio'n

galed i leihau effaith llif cleifion gwael ar y cleifion. Roedd hyn yn cynnwys nyrs a oedd yn gweithredu fel cydgysylltydd llif cleifion a nyrsys brysbennu profiadol.

Roedd pob aelod o'r staff nyrsio a'r staff meddygol yn gweithio'n galed i sicrhau mynediad amserol i ofal. Fodd bynnag, ni chafodd AGIC sicrwydd bod pob agwedd ar y gofal yn y brif Adran Achosion Brys yn cael ei chyflawni mewn modd amserol ac effeithiol o ganlyniad i nifer y cleifion a oedd yn cyrraedd yr adran a phroblemau o ran llif cleifion. Gwnaethom edrych ar gofnodion chwe chlaf yn yr Adran Achosion Brys a nodwyd materion difrifol gennym, yr oedd angen i'r bwrdd iechyd weithredu ar unwaith yn eu cylch. Roedd yr enghreifftiau yn cynnwys y canlynol:

- Gwelsom oedi y tu hwnt i'r canllawiau cenedlaethol wrth frysennu ac wrth gynnal adolygiad meddygol o gleifion a oedd yn cyrraedd â phoen yn y frest a symptomau cnawdnychiant myocardaidd cysylltiedig. Roedd y claf wedi gorfod aros dwy awr rhwng cyrraedd a chael ei frysennu mewn un cofnod a welwyd
- Roedd claf arall wedi bod yn gorwedd ar fwrdd asgwrn cefn am gyfnod sylweddol y tu hwnt i'r canllawiau cenedlaethol ac roedd oedi wrth ddarparu ymyriadau priodol, gan gynnwys MRI, er gwaethaf y ffaith bod diffyg niwrolegol wedi cael ei gofnodi
- Roedd claf hŷn ac eiddil wedi bod yn gorwedd ar arwyneb anaddas (troli ambiwlans) am dros 11 awr ac wedi cwyno ei fod mewn poen yn ystod y cyfnod hwn.

**Ymdriniwyd â'r mater hwn o dan broses sicrwydd ar unwaith AGIC a chyfeirir ato yn Atodiad B o'r adroddiad hwn.**

Roedd yn gadarnhaol nodi bod cleifion pediatrig yn yr Uned Achosion Brys Plant yn cael eu brysbennu o fewn terfynau amser priodol ac roedd cydymffurfiaeth â thargedau trin yn dda ar y cyfan. Cawsom wybod hefyd fod mentrau dan arweiniad nyrsys yn mynd rhagddynt yn yr adran er mwyn adolygu'r ardaloedd aros a brysbennu.

## **Gofal unigol**

### **Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth**

Gwelsom fod prosesau cynllunio gofal aml-ddisgyblaethol ar waith a oedd yn ystyried safbwyntiau'r cleifion o ran sut roeddent am gael gofal.

Drwy ein sgysiau â'r staff a'n harsylwadau, gwnaethom gadarnhau fod y cleifion a'u perthnasau/gofalwyr yn cael eu cynnwys yn y penderfyniadau am eu hanghenion gofal. Fodd bynnag, roedd dau unigolyn a ymatebodd i'r holiadur yn anghytuno gan

nodi nad oeddent wedi cael eu cynnwys ddigon wrth wneud penderfyniadau am eu gofal.

### **Hawliau pobl**

Gwelsom fod y staff yn gweithio'n galed i ddarparu gofal a oedd yn hybu ac yn amddiffyn hawliau'r bobl. Roedd tystiolaeth bod gwybodaeth am ddymuniadau personol, diwylliannol ac ysbrydol y cleifion yn cael ei chofnodi a'i rhannu'n briodol.

Gwelsom fod un perthynas yn gallu aros gyda'r cleifion yn ardal aros y brif Adran Achosion Brys. Roedd ymwelwyr yn gallu dod i'r ardaloedd asesu o fewn oriau dynodedig, ond dywedwyd wrthym fod hyblygrwydd gan ddibynnu ar anghenion y cleifion.

Yn yr ardaloedd asesu, dywedwyd wrthym y byddai cleifion yn cael eu rhoi mewn ciwbicl os oeddent yn ddifrifol wael ac y byddai perthnasau yn gallu aros dros nos. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym nad oedd hyn bob amser yn bosibl, a nodwyd gennym yn anffodus fod dau glaf wedi marw mewn cilfan aml-wely mwy o faint, er bod aelodau o'u teuluoedd yn bresennol.

Roedd ystafell fach ond addas i berthnasau, y gellid ei defnyddio os oedd angen man tawel i siarad â pherthnasau.

### **Gwranddo a dysgu o adborth**

Nodwyd gennym fod cyfleoedd i'r cleifion roi adborth, gwneud awgrymiadau a chyflwyno cwynion ffurfiol. Roedd hyn yn cynnwys siarad â'r nyrs â chyfrifoldeb, cysylltu â Gwasanaeth Cyngor a Chyswllt Cleifion (PALS) y bwrdd iechyd neu gyflwyno manylion ar-lein. Fodd bynnag, gwelsom mai gwybodaeth gyfyngedig oedd i'w gweld yn yr holl ardaloedd y gwnaethom ymweld â nhw yn ystor yr arolygiad, gan gynnwys diffyg cyfeiriadau at y cynllun Gweithio i Wella.

**Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod digon o wybodaeth am sut i roi adborth neu gwyno i'w gweld mewn lleoliadau allweddol o amgylch yr adran.**

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Gofal Diogel

### Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Gwelsom fod yr Adran Achosion Brys a'r ardaloedd asesu yn gyffredinol yn hygyrch i bob claf ac ymwelydd. Fodd bynnag, gwelsom fod yr ardaloedd hyn, ac eithrio'r Uned Achosion Brys Plant, yn gyffredinol yn orlawn ac yn flêr, a allai gyflwyno peryglon baglu i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr. Er enghraifft, yn yr Uned Gwneud Penderfyniadau Llawfeddygol, gwelsom fod y cleifion yn gadael eu heiddo ar y llawr mewn sawl un o'r ardaloedd â gwelyau a thros nos yn ardaloedd brysbennu / ardaloedd aros yr Uned.

Roedd y ffaith bod gormod o bobl yn yr ardaloedd hyn yn gyffredinol yn cyfrannu at ddiffyg gofod i'r cleifion ac i'r staff roi gofal a thriniaethau. Gwnaethom ofyn i'r staff a oedd cyfleusterau'r Adran Achosion Brys yn briodol er mwyn iddynt ymgymryd â'u tasgau. Roedd 12 ohonynt yn cytuno ac roedd 21 ohonynt yn anghytuno. Nododd y staff:

*“Gan fod yr Adran Achosion Brys yn orlawn yn gyson, mae'r broses o reoli'r trefniadau ar gyfer asesu a thrin cleifion newydd, hyd yn oed cleifion sy'n ddifrifol wael, yn heriol iawn.”*

*“... nid oes digon o ystafelloedd i frysennu mewn modd amserol.”*

*“Does dim digon o le ar gael yn ystod adegau prysur i weld y cleifion a'u trin yn briodol. Nid yw'r ardal ar gyfer gwerthuso a dechrau triniaeth yn gyflym (REACT) yn cynnig gofod priodol gan nad oes unrhyw breifatrwydd i'r cleifion na chyfleusterau gwresogi.”*

*“Nid yw'r adran bellach yn addas at y diben. Mae'r olchfa yn rhy fach, nid oes digon o doiledau, ac mae'r ystafell ddihalogi yn cael ei defnyddio fel ardal ymchwydd ar hyn o bryd.”*

*“Diffyg gofod gweithio i baratoi... dogfennaeth ac ati. Mae'r ardal 'mân anafiadau' yn rhy fach ac mae bob amser yn rhy llawn. Nid yw'r ardal 'mân anafiadau' yn briodol ar gyfer cleifion iechyd meddwl ond fel arfer, dyma'r unig le y gall y cleifion hyn eistedd. Nid yw'r ardal REACT yn addas at y diben, mae'n rhy gyfyng i weithio ynddi ac nid yw'n cynnig preifatrwydd nac urddas i'r cleifion.”*

Yn ystod yr arolygiad, disgrifiodd yr uwch-reolwyr gynlluniau i ni sydd wedi cael eu cymeradwyo ar gyfer adran asesu meddygol aciwt newydd fawr yn Ysbyty Treforys. Dywedwyd wrthym y bydd yn darparu gwell amgylchedd i'r cleifion a'r staff, gan ar yr un pryd anelu at leihau atgyfeiriadau a derbyniadau i'r Adran Achosion Brys.

**Yn y cyfamser, rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau nad yw'r ardaloedd a ddisgrifiwyd yn flêr er mwyn lleihau'r risg y ceir peryglon baglu.**

Er gwaethaf yr uchod, roedd yr amgylchedd yn lân ar y cyfan ac roedd y staff cadw tŷ yn ddiwyd ac yn dangos parch wrth gwblhau tasgau yn yr ardaloedd clinigol a'r ardaloedd aros i gleifion. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd ystafelloedd cyfleustodau wedi'u cloi a'u bod ar agor yn yr ardaloedd asesu. **Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod drysau ystafelloedd cyfleustodau wedi'u cloi pan na fyddant yn cael eu defnyddio er mwyn atal unrhyw fynediad anawdurdodedig.**

Gwelsom fod mynedfeydd ardaloedd clinigol yr Adran Achosion Brys yn ddiogel a bod drysau ardaloedd staff yn unig, fel ystafelloedd meddyginiaeth, wedi'u cloi. Dywedwyd wrthym fod tîm diogelwch penodedig i roi cymorth pe byddai angen.

Yn yr ardaloedd asesu, sef yr Uned Asesu Cyflym, roedd modd i bobl gael mynediad i'r ardaloedd hyn heb fod angen i'r staff roi caniatâd iddynt gael mynediad. Dywedwyd wrthym fod claf wedi cael ei weld yn ceisio gadael y ward unwaith yn ystod yr arolygiad, a'i fod wedi cael ei hebrwng yn ôl i'w wely. Cyfeirir at hyn hefyd yng nghyd-destun y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS) ar dudalen 19. **Rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried diogelwch y wardiau o ystyried y grwpiau cleifion sy'n cael gofal yn yr ardaloedd hyn.**

Roedd proses addas ar gyfer rhoi gwybod am ddiffygion a materion cynnal a chadw eraill, ond dywedodd rhai o'r staff wrthym:

*“Mae angen i'r amgylchedd gwaith fod yn well. Does dim ystafell gyfleustodau lân i'r nyrsys baratoi cyffuriau neu feddyginiaeth fewnwythiennol. Nid yw'r adran ystadau yn ymateb yn brydlon o ran gwneud gwaith atgyweirio...”*

*“Mae angen mwy o gyfarpar arnom ac mae angen trwsio cyfarpar sy'n torri yn gyflymach. Mae diffyg cyfarpar sylweddol o ystyried nifer y cleifion.”*

**Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y rhoddir blaenoriaeth briodol i faterion cynnal a chadw a dylai ystyried sylwadau'r staff yn yr adran hon o'r adroddiad.**

### **Atal briwiau pwysu a niwed i feinweoedd**

Yn yr Adran Achosion Brys a'r ardaloedd asesu, gwelsom fod asesiadau risg cychwynnol ar gyfer briwiau pwysu wedi cael eu cwblhau'n brydlon a bod asesiadau croen priodol yn cael eu cwblhau lle bo angen. Yn yr ardaloedd asesu, gwelsom fod dogfennaeth yn cael ei chwblhau i safon dda a bod y cleifion yr ystyriwyd eu bod yn wynebu risg uchel yn cael eu monitro'n barhaus.

## **Atal cwympiadau**

Yn yr Adran Achosion Brys a'r ardaloedd asesu, gwelsom fod asesiadau risg cychwynnol ar gyfer cwympiadau wedi cael eu cwblhau'n brydlon ac yn gynhwysfawr lle roedd eu hangen.

Dywedodd staff yr Adran Achosion Brys wrthym fod cymorth ychwanegol, fel cymorth gan Therapyddion Galwedigaethol neu Ffisiotherapyddion, ar gael ar gyfer cleifion yr aseswyd bod risg y byddent yn cwmpo, ond nad oedd y cymorth hwnnw bob amser ar gael ar unwaith. Fodd bynnag, dywedodd y staff yn yr ardaloedd asesu wrthym fod cyfarpar yn cael ei ddarparu mewn modd amserol os oedd ei angen ac yn dilyn asesiadau unigol.

Yn yr Adran Achosion Brys, nodwyd gennym fod y Gwasanaeth Asesu Pobl Hŷn yn cynnal cysylltiadau effeithiol â'r adran a'u bod yn gallu derbyn derbyniadau uniongyrchol gyda'r bwriad o osgoi cyfnod estynedig yn yr Adran Achosion Brys, gan felly leihau'r risg y byddai cleifion mewnol yn cwmpo. Roedd yn gadarnhaol nodi bod enghreifftiau o'r gwersi i'w dysgu o ddiwyddiadau cwmpo yn aml yn cael eu cofnodi a'u rhannu drwy'r Gwasanaeth Asesu Pobl Hŷn.

Nodwyd gennym fod ardal o'r Adran Achosion Brys wedi'i dynodi'n benodol ar gyfer cleifion yr oedd angen goruchwyliaeth estynedig arnynt a bod clychau galw o fewn cyrraedd i'r cleifion.

## **Atal a rheoli heintiau**

Yn gyffredinol, roedd pob ardal a arolygwyd gennym yn cydymffurfio'n foddhaol â'r gweithdrefnau atal a rheoli heintiau. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn wybodus ar y cyfan ac yn gallu disgrifio sut roeddent yn cynnal arferion da o ran atal a rheoli heintiau mewn perthynas â'u rolau a'u cyfrifoldebau. Roedd y staff yn drwsiadus ac roedd eu gwisgoedd yn lân. Roeddent bob amser yn noeth o dan y penelin.

Roedd staff nyrsio atal a rheoli heintiau sy'n gweithio ym mhob rhan o'r ysbyty yn rhoi cymorth yn yr ardaloedd a arolygwyd. Caiff y tîm hwn ei gefnogi gan nyrs atal a rheoli heintiau arweiniol a ymgysylltodd yn dda â'r tîm arolygu. Nodwyd gennym fod rhaglen o archwiliadau atal a rheoli heintiau ac archwiliadau yn ymwneud â glanhau ar waith a bod yr archwiliadau hynny yn cael eu cwblhau'n gyson bob mis.

Fodd bynnag, ym mhob ardal, gwelsom gyfleoedd parhaus yn cael eu colli i olchi dwylo. Roedd arferion gwael hefyd wrth ddefnyddio menig. Gwelsom enghreifftiau lle nad oedd y staff nyrsio a'r staff meddygol yn newid eu menig rhwng gwahanol gleifion ac wrth newid rhwng tasgau clinigol a thasgau anghlinigol. Roedd hyn yn cynnwys un adeg lle cafodd claf ei archwilio gan staff a oedd yn gwisgo cyfarpar diogelu personol (PPE) llawn oherwydd ei risg o haint, a aeth ymlaen wedyn i



ddefnyddio pwyntiau cyffwrdd, gan gynnwys y ffôn a'r cyfrifiadur, mewn PPE halogedig. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff pob grŵp staff ei atgoffa o bwysigrwydd hylendid dwylo da a defnydd priodol o fenig yn unol â pholisi'r bwrdd iechyd.

Yn yr ardaloedd asesu, gwelsom nad oedd dyfeisiau meddygol yn cael eu sychu rhwng gwahanol gleifion. Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw nad oedd hyn bob amser yn digwydd. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff dyfeisiau y gellir eu haildefnyddio eu glanhau rhwng cleifion.

Mae angen atgyfnerthu'r cyfraddau ar gyfer cwblhau hyfforddiant gorfodol ar gyfer atal a rheoli heintiau yn yr Adran Achosion Brys. Y gyfradd cwblhau gyfun ar gyfer grwpiau staff oedd 57.7% ar adeg yr arolygiad. Rhaid i'r Bwrdd Iechyd Sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cwblhau hyfforddiant gorfodol mewn modd amserol.

### **Maeth a hydradu**

Mae angen gwelliannau er mwyn sicrhau y caiff anghenion maeth a hydradu'r cleifion eu diwallu'n llawn.

Yn yr Adran Achosion Brys a'r ardaloedd asesu, yn gyffredinol, roedd dŵr ar gael. Roedd cyflenwad o ddŵr yn yr ardaloedd aros, o fewn cyrraedd braich ar fyrddau wrth ymyl y gwelyau ac ar droliâu a oedd yn cael eu gweithredu gan wirfoddolwyr y Groes Goch.

Fodd bynnag, yn yr Adran Achosion Brys, nid oedd digon o bwyslais ar sicrhau bod anghenion maethol yn cael eu diwallu. Mae hyn oherwydd y canlynol:

- Ni chafodd y cleifion a oedd yn yr adran am gyfnodau hir gynnig bwyd
- Nid oedd digon o fwyd yn cael ei ddsbarthu'n rheolaidd i'r adran
- Dywedodd y staff ambiwlans wrthym mai dim ond dŵr sydd ar gael iddynt fel arfer
- Dywedodd un claf wrthym ei bod wedi cael cynnig byrbrydau yn cynnwys lefel uchel o siwgr er gwaethaf y ffaith ei bod yn ddiabetig ac na chafodd gynnig ddewis amgen
- Cawsom wybod gan y staff nad oes unrhyw gyllideb ar gyfer bwyd ychwanegol yn yr adran
- Roedd canlyniadau'r archwiliad safonau iechyd a gofal diweddar yn dangos bod angen gwella'r gwaith o gynllunio gofal a chadw cofnodion mewn perthynas â chymeriant hylif a chleifion ag anawsterau llyncu.

Oherwydd hyd yr amser y gall y cleifion fod yn yr adran, rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff anghenion maethol eu hasesu'n llawn a'u dogfennu, ac y caiff mwy o fwyd ei ddarparu.

Yn yr ardaloedd asesu, gwelsom fod llwybr maeth Cymru Gyfan yn cael ei ddefnyddio a bod pryddau rheolaidd yn cael eu darparu i'r cleifion drwy gydol y dydd. Nid oedd angen cymorth ar unrhyw gleifion i fwyta yn ystod yr arolygiad, ond cawsom sicrwydd gan y staff y byddai aelod o'r staff ar gael pe byddai angen cymorth. Nodwyd gennym fod unrhyw gleifion na ddylid rhoi unrhyw fwyd na diod iddynt wedi'u nodi ar y bwrdd Ciplwg ar Statws Cleifion, ond nad oedd gofynion deietegol arbennig wedi'u cofnodi. **Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod unrhyw ofynion deietegol, gan gynnwys alergeddau, i'w gweld yn ddigon clir i bob aelod o'r staff.**

### **Rheoli meddyginiaethau**

Roedd polisi rheoli meddyginiaethau ysgrifenedig ar waith ac roedd y staff yn ymwybodol o sut i gael gafeael ar y polisi hwnnw pe byddai ei angen.

Yn gyffredinol, roedd diogelwch meddyginiaethau yn dda ym mhob ardal a arolygwyd gennym. Fodd bynnag, yn yr Uned Gwneud Penderfyniadau Llawfeddygol, nodwyd gennym fod drws yr ystafell allanol a'r cypyrddau cyffuriau ar agor ac nad oeddent yn cael eu cloi pan nad oeddent yn cael eu defnyddio. **Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod mynediad i'r ystafelloedd meddyginiaeth yn ddiogel bob amser.**

Gwnaethom edrych ar agweddau ar ddiogelwch cyffuriau a reolir a nodwyd gennym fod cyffuriau a reolir wedi cael eu rhoi a'u cofnodi'n gywir. Gwnaethom gadarnhau bod y cyffuriau a reolir yn cael eu gwirio a'u cofnodi bob dydd a bod cydweithwyr o'r fferyllfa yn cwblhau archwiliadau rheolaidd o'r drefn. Roedd tymheredd oergelloedd yn cael eu gwirio a'u cofnodi bob dydd er mwyn sicrhau uniondeb y meddyginiaethau y tu mewn iddynt.

Nodwyd gennym nad oedd unrhyw amser gwarchoddedig ar gyfer rhoi cyffuriau ac nad oedd system tabardau coch ar waith ar gyfer rhoi meddyginiaethau yn yr ardaloedd asesu a welsom. **Dylai'r bwrdd iechyd ystyried a oes angen trefniadau o'r fath er mwyn sicrhau y gellir rhoi meddyginiaethau mewn ffordd ddiogel a thawel.**

Yn yr Uned Gwneud Penderfyniadau Llawfeddygol, gwelsom fod bylchau mewn perthynas â rhagnodi ocsigen a nodi dirlawnderau targed ar ddwy o'r siartiau cyffuriau a welsom. Nid oedd un cofnod yn cynnwys unrhyw ddogfennaeth nyrsio mewn perthynas â gofynion a dirlawnderau ocsigen, er gwaethaf y ffaith eu bod wedi'u cofnodi ar y siart Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol (NEWS). Yn ogystal, gwnaethom nodi bylchau mewn perthynas â chwblhau siartiau cydbwysedd hylif. **Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff cofnodion nyrsio a siartiau mewn perthynas â rheoli meddyginiaethau eu cwblhau'n briodol.**

## Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n wynebu risg

Roedd polisiau a gweithdrefnau clir ar waith gan y bwrdd iechyd i'r staff eu dilyn pe byddai ganddynt bryder diogelu. Roedd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad ag ef yn ymwybodol o'r broses ar gyfer rhoi gwybod am unrhyw bryderon a byddai'n teimlo'n gyfforddus yn gwneud hynny.

Roedd yn gadarnhaol gweld bod arweinydd diogelu yn yr adran a oedd yn chwarae rôl weithredol wrth ddarparu hyfforddiant ac ymwybyddiaeth anffurfiol i'r staff, yn ogystal ag adolygu achosion penodol. Nodwyd gennym fod hyfforddiant yn cael ei ddarparu hefyd ar gwblhau dogfennau atgyfeirio er mwyn atal trais a dogfennau risg o gamfanteisio rhywiol, ac roedd y staff yn ymwybodol o'r cynnwys.

Yn yr Uned Achosion Brys Plant, gwelsom y byddai unrhyw blant neu bobl ifanc a oedd yn wynebu argyfwng yn cael gofal nyrsio un i un. Disgrifiodd y staff gydberthnasau gwaith da â'r gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed (CAMHS) ac roeddent yn wybodus am faterion sy'n ymwneud â hawliau plant.

Roedd cyfraddau cwblhau ar gyfer hyfforddiant gorfodol perthnasol yn yr Adran Achosion Brys yn cynnwys y canlynol:

- Diogelu (plant): 60.3%
- Diogelu (oedolion): 70.9%
- Ymwybyddiaeth o ddementia: 82.4%
- Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol: 51.9%

**Rhaid i'r Bwrdd Iechyd Sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cwblhau hyfforddiant gorfodol mewn modd amserol, yn enwedig ymhlith y staff meddygol lle roedd y ffigurau yn sylweddol is mewn rhai pynciau.**

Roedd dau glaf yn yr Uned Asesu Cyflym yr oedd angen mwy o ofal arnynt, ond ni roddwyd unrhyw ystyriaeth i gymorth nyrsio ychwanegol nac i'r broses Amddifadu o Ryddid. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn yr Uned Asesu Cyflym a'r ardaloedd asesu ehangach yn ymwybodol o'r trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid a'r prosesau diogelu ond roeddent yn teimlo y byddai angen cymorth arnynt wrth gwblhau'r ddogfennaeth ffurfiol ac y byddai hyfforddiant ychwanegol o fudd iddynt.

Rhaid i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod y staff yn yr ardaloedd asesu yn hyderus ynghylch y prosesau diogelu a'r trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid perthnasol er mwyn sicrhau y caiff hawliau'r cleifion eu parchu.

#### Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Ym mhob ardal, roedd y dyfeisiau a'r cyfarpar meddygol yn gyfredol ac yn gweithio'n iawn. Roedd gan bob dyfais a welsom label yn nodi pryd y cafodd ei gwasanaethu ddiwethaf ac roedd y staff yn glir ynghylch y trefniadau ar gyfer rhoi gwybod am offer diffygiol.

Dywedodd y staff wrthym fod ganddynt ddigon o offer i ofalu am y cleifion. Fodd bynnag, nododd staff yr Uned Asesu Cyflym y byddai cloriannau pwysu y gellid eistedd arnynt o fudd ar gyfer rhai grwpiau cleifion penodol yr oeddent yn gofalu amdanynt.

## Gofal effeithiol

### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd y staff yn wybodus ynghylch y gweithdrefnau mewn perthynas â nodi a rheoli achosion lle yr amheuwyd bod sepsis ar y claf. Roedd dogfennaeth gofal sepsis a Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol priodol yn cael eu cwblhau lle y bo'n briodol ac roedd trolïau sepsis ar gael yn yr Adran Achosion Brys a'r ardaloedd asesu. Dywedodd y staff yn yr Uned Gwneud Penderfyniadau Llawfeddygol wrthym eu bod yn anelu at frysbenneu'r cleifion o fewn terfyn amser o 15 munud sydd hefyd yn helpu i sicrhau y caiff achosion o sepsis eu nodi'n gynnar.

Nodwyd gennym fod y Gwasanaeth Asesu Pobl Hŷn yn llwybr nodedig ac effeithiol fel llwybr derbyn amgen ar gyfer rhai cleifion hŷn penodol. Mae'r gwasanaeth yn darparu gwasanaeth dan arweiniad Uwch-ymarferwyr Nyrsio sy'n canolbwyntio ar anghenion gofal a thriniaeth penodol oedolion hŷn, sy'n anelu at ryddhau cleifion o'r ysbyty mewn modd amserol heb fod angen eu derbyn i ward. Nodwyd gennym mai dim ond yn ystod yr wythnos y mae'r gwasanaeth ar agor ar hyn o bryd ac nid yw ar agor gyda'r nos nac ar benwythnosau. **Mae'n bosibl yr hoffai'r bwrdd iechyd ystyried argaeledd y gwasanaeth hwn fel ffordd arall o leihau derbyniadau.**

### Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Er gwaethaf y pwysau ar y system gyfan, nodwyd gennym fod y Bwrdd Iechyd ac uwch-aelodau o'r staff yn yr Adran Achosion Brys yn awyddus i ddatblygu mentrau newydd er mwyn helpu i ddatblygu'r gwasanaeth a gofalu am y cleifion.

Gwelsom fod cyswllt ac ymgysylltiad parhaus â Gwasanaeth Ambiwlans Cymru er mwyn mynd i'r afael â'r heriau sy'n gysylltiedig â'r llif cleifion. Gwnaed ymdrechion hefyd i ddarparu gwasanaethau drwy'r Groes Goch er mwyn cefnogi profiad y claf.

Roedd metronau yn yr Adran Achosion Brys yn annog y staff i ymgymryd â phrosiectau gwella. Gwelsom nifer o fentrau a gwasanaethau nodedig o dan arweiniad uwch-nyrsys yn yr adran yn ymwneud â diogelu, profedigaeth, brysbennu ac unigolion sy'n dod i'r adran yn aml. Roedd yn gadarnhaol gweld bod y staff wedi cael amser priodol i ddatblygu'r gwasanaethau hyn mewn ffordd ystyrlon sy'n canolbwyntio ar y cleifion.

Rhoddodd yr uwch-reolwyr hefyd drosolwg o'r rhaglen Ailddylunio Gwasanaethau Meddygol Acíwt a'r amrywiol brosiectau cysylltiedig sy'n cael eu datblygu mewn perthynas â gwella gwasanaethau meddyginiaeth frys ac aciwt y bwrdd iechyd. Disgwylir i'r rhaglen hon gael ei rhoi ar waith ym mis Tachwedd 2022 ar safle Treforys.

## **Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu**

Gwelsom fod systemau TGCh addas ar waith i alluogi'r staff i gwblhau eu tasgau o ran gofalu am y cleifion.

Roedd y rhan fwyaf o'r staff a gwblhaodd holiadur AGIC yn cytuno eu bod yn gallu cael mynediad at y systemau TGCh sydd eu hangen arnynt i ddarparu gofal a chymorth da i'r cleifion.

## **Cadw cofnodion**

Roedd y trefniadau ar gyfer cadw cofnodion yn yr Adran Achosion Brys o safon dderbyniol. Fodd bynnag, nid oedd rhai cofnodion yn cynnwys cymaint o wybodaeth â'r disgwyl er gwaethaf y ffaith bod y cleifion wedi bod yn yr adran am gyfnod hir. Gwnaethom gadarnhau bod yr arsylwadau perthnasol wedi cael eu cynnal ar y cyfan, ond **rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff y cofnodion eu diweddarau ar y pryd.**

Roedd y trefniadau ar gyfer cadw cofnodion yn yr ardaloedd asesu o safon dderbyniol. Roedd atebolrwydd clir a thystiolaeth o sut roedd penderfyniadau am ofal cleifion yn cael eu gwneud. Roedd pob cofnod wedi'i ddyddio, ei lofnodi ac yn glir.

Fodd bynnag, nodwyd mai dim ond unwaith y dydd roedd cofnodion nyrsio yn cael eu hychwanegu at nodiadau cleifion yn yr Uned Gwneud Penderfyniadau Llawfeddygol a'r Uned Asesu Cyflym. Er mwyn sicrhau bod cofnodion yn gynhwysfawr ac yn gyfoes, **rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried effeithiolrwydd yr arferion hyn.**

Gwelwyd bod y trefniadau ar gyfer cadw cofnodion yn yr Uned Achosion Brys Plant o safon dda.

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

## Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd

Gwnaethom gadarnhau fod strwythur rheoli priodol ar waith yn yr Adran Achosion Brys a'r ardaloedd asesu a arolygwyd gennym. Roedd y staff yn glir o ran pwy oedd eu rheolwyr a sut i uwchgyfeirio unrhyw faterion.

Yn yr Adran Achosion Brys a'r Uned Achosion Brys Plant, roedd pob aelod o'r staff ond dau a ymatebodd i'r cwestiwn hwn yn holiadur AGIC yn cytuno y gellir dibynnu ar eu rheolwr uniongyrchol i helpu â thasg anodd yn y gwaith. Yn yr ardaloedd asesu, roedd pob aelod o'r staff ond un yn cytuno.

Cafwyd nifer o sylwadau cadarnhaol gan y staff yn yr Adran Achosion Brys am eu rheolwyr llinell uniongyrchol. Roedd y rhain yn cynnwys:

*“... mae morâl yr Adran Achosion Brys wedi gwella ers i [enwau] gamu i mewn. Mae'r cymorth y maent yn ei roi i'r staff yn eithriadol ac mae pob un ohonom yn gwybod eu bod yno i'n helpu doed a ddelo...”*

*“Rwyf wedi gweld gwelliannau mawr o ran morâl y staff ers i ... ddechrau yn ei swydd. Mae'n gefnogol iawn a bob amser i'w weld yn yr adran... mae'n gofyn am farn y tîm o ran sut y gallwn wella'r adran a llesiant y staff yn rheolaidd...”*

*“Cymorth ardderchog gan [rheolwr] dros yr ychydig wythnosau diwethaf, rwy'n teimlo bod ei bresenoldeb wedi rhoi hwb i forâl yr adran, hyd yn oed yn ystod y cyfnod anodd rydym wedi bod yn ei gael...”*

Yn yr Adran Achosion Brys a'r Uned Achosion Brys Plant, roedd pob aelod o'r staff yn cytuno eu bod yn gwybod pwy yw'r uwch-reolwyr ac roedd pob un ond tri ohonynt yn cytuno eu bod yn weladwy. Yn yr ardaloedd asesu, roedd ychydig dros hanner y staff yn cytuno bod yr uwch-reolwyr yn weladwy.

Yn yr Adran Achosion Brys a'r Uned Achosion Brys Plant, dim ond dwy ran o dair o'r staff oedd yn cytuno bod y cyfathrebu rhwng yr uwch-reolwyr yn effeithiol, a bod camau gweithredu yn cael eu cymryd mewn ymateb i adborth gan y staff. Yn yr ardaloedd asesu, roedd dwy ran o dair o'r staff yn cytuno bod y cyfathrebu yn effeithiol ond dim ond hanner oedd o'r farn bod camau gweithredu yn cael eu cymryd mewn ymateb i adborth gan y staff.

Roedd pob ardal yn cynnal amrywiaeth o weithgareddau archwilio ac yn cyflwyno'r canfyddiadau drwy fframwaith priodol o gyfarfodydd llywodraethu lleol a chyfarwyddiaeth-gyfan. Roedd yn gadarnhaol nodi bod yr Adran Achosion Brys wedi ymrwymo i gynnal archwiliad yn sgil canfyddiadau AGIC mewn Byrddau Iechyd eraill. **O ystyried rhai o ganfyddiadau'r adroddiad hwn, dylai'r Bwrdd Iechyd ystyried**

cynyddu ei drefniadau ar gyfer goruchwyllo agweddau ar weithgareddau archwiliadwy.

Drwy gydol yr arolygiad, roedd y rheolwyr a'r staff ar gael yn hwylus i'r tîm arolygu ac roeddent yn agored ac yn barod i ymgysylltu.

## Y gweithlu

Gwelsom staff ymroddedig ym mhob rôl ac ardal a oedd yn gweithio'n galed i roi profiad cadarnhaol i'r cleifion a lefelau gofal da er gwaethaf pwysau eithriadol.

Cadarnhaodd uwch-aelodau o'r staff fod swyddi meddygol a nyrsio gwag ym mhob un o'r ardaloedd a arolygwyd gennym. Fodd bynnag, nodwyd gennym yn yr Adran Achosion Brys fod nifer o staff nyrsio newydd a oedd yn rhan o'r broses recriwtio a phenodi.

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod nifer nyrsys yr Adran Achosion Brys yn gyffredinol yn bodloni'r lefelau gofynnol, ond roedd dibyniaeth sylweddol ar nyrsys asiantaeth. Cawsom gadarnhad fod yr adran yn adnabod y rhan fwyaf o'r staff asiantaeth ac yn gyfarwydd â nhw. Roedd diffygion staffio ar draws rolau eraill yn yr adran, ond roedd ymdrechion wedi cael eu gwneud i ddarparu staff cyflenwi lle y bo'n bosibl.

Pan ofynnwyd a oes digon o staff iddynt allu gwneud eu gwaith yn briodol, roedd y rhan fwyaf o'r staff a ymatebodd i holiadur AGIC yn anghytuno. Roedd mwy na hanner y staff hefyd yn anghytuno bod cymysgedd sgiliau digonol yn yr Adran Achosion Brys. Roedd y sylwadau yn cynnwys y canlynol:

*“Adolygu rotas staffio meddygol er mwyn sicrhau bod nifer y staff yn cyfateb i'r galw o ran cleifion...”*

*“Rydym yn dibynnu'n helaeth ar weithwyr asiantaeth ar hyn o bryd i gyrraedd niferoedd staffio diogel. Mae'r adran wedi cyflogi mwy o staff yn ddiweddar; fodd bynnag, bydd cryn dipyn o amser cyn y bydd yr aelodau hynny o staff yn gwbl fedrus...”*

*“rydym yn colli ein staff profiadol oherwydd y pwysau uchel cynyddol yn yr adran a'r ffaith y gallant gael mwy o arian am lai o straen mewn swyddi eraill.”*

*“Yn aml, ceir diwrnodau lle mae nifer fach o staff newydd gymhwyso yn cael eu gadael i ddelio â sefyllfaoedd sydd y tu hwnt i'w rheolaeth.”*

Yn yr un modd, yn yr ardaloedd asesu a arolygwyd gennym, gwelsom ddiffygion staffio ym mhob rôl. Nodwyd bod ymdrechion yn cael eu gwneud i ddarparu digon o staff cyflenwi, ond nid oedd hyn bob amser yn cael ei gyflawni. Dywedodd y staff wrthym fod hyn yn achosi problemau pan oedd angen arsylwi mwy ar gleifion neu pan oedd angen lefelau gofal uwch arnynt.



Yn yr Uned Achosion Brys Plant, nodwyd gennym fod yr uned yn anelu at sicrhau bod dwy nyrs gofrestredig ac o leiaf un nyrs bediatrig ar bob shift. Dywedwyd wrthym y byddai nyrsys yr Adran Achosion Brys yn cyflenwi ar sail cylchdro a bod proses recriwtio yn mynd rhagddi i sicrhau bod digon o nyrsys pediatrig yn yr uned bum diwrnod yr wythnos.

Er ein bod yn cydnabod yr anawsterau wrth recriwtio nyrsys pediatrig, codwyd y mater hwn yn ystod ein gwiriad ansawdd o'r Uned Achosion Brys Plant ym mis Mehefin 2021. **Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu hyn mewn ffordd gadarn a chynaliadwy gan fod yr Uned yn darparu gwasanaeth brys 24/7.**

### **Adborth gan Staff**

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ddisbarthu holiadur ar-lein er mwyn cael barn ac adborth gan y staff. Cawsom gyfanswm o 55. Cafodd yr ymatebion hyn eu cynnwys yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn a chaiff ymatebion a sylwadau ychwanegol eu cynnwys isod.

Ymatebion a sylwadau gan y staff sy'n gweithio yn yr **Adran Achosion Brys**:

Pan ofynnwyd iddynt a yw amgylchedd yr Adran Achosion Brys yn briodol o ran sicrhau bod y cleifion yn cael y gofal sydd ei angen arnynt ar yr 'adeg mynychu', roedd y rhan fwyaf o'r staff yn anghytuno. Roedd sylwadau'r staff yn cynnwys y canlynol:

*"Yn aml, nid yw'r amgylchedd yn ddiogel o ganlyniad i'r nifer uchel o gleifion sy'n dod i'r Adran Achosion Brys a'r prinder gwelyau yn yr ysbyty."*

*"Mae'r ffaith bod gormod o bobl yn ein hadran yn broblem gronig. Yn aml, caiff cleifion eu gadael yn eistedd mewn cadeiriau am 50 awr a mwy..."*

*"Does dim gwelyau i gleifion sy'n sâl, diffyg llif drwy'r ysbyty. Mae gormod o gleifion yn dod i'r Adran Achosion Brys pan nad oes angen hynny."*

*"Mae'r adran yn ddigon mawr yn ffisegol i wasanaeth yr Adran Achosion Brys ond nid oes modd rhedeg y gwasanaeth hwnnw gan fod ward wedi'i lleoli yma yn lle hynny."*

Dywedodd dwy ran o dair o'r staff eu bod yn fodlon ar ansawdd y gofal y maent yn ei roi i'r cleifion.

Pan ofynnwyd iddynt a yw eu hysbyty yn annog gwaith tîm, roedd y rhan fwyaf o'r staff yn cytuno. Fodd bynnag, dim ond ychydig dros hanner y staff oedd yn cytuno bod y trefniadau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth ag adrannau eraill yn effeithiol.

Pan ofynnwyd iddynt a yw eu swydd yn cael effaith andwyol ar eu hiechyd, dywedodd hanner y staff a atebodd ei fod yn cael effaith o'r fath. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf ohonynt yn cytuno bod eu sefydliad yn cymryd camau gweithredu cadarnhaol mewn perthynas ag iechyd a llesiant.

Pan ofynnwyd iddynt a oeddent wedi gweld unrhyw gamgymeriadau, achosion y bu ond y dim iddynt ddigwydd neu ddigwyddiadau a allai fod wedi anafu'r staff neu'r cleifion, dywedodd ychydig dros hanner y staff a atebodd eu bod wedi gweld achosion o'r fath. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf ohonynt yn cytuno bod y Bwrdd Iechyd yn cymryd camau i sicrhau na fyddant yn digwydd eto.

Mewn perthynas â datblygiad proffesiynol, roedd y rhan fwyaf o'r staff yn cytuno eu bod wedi cael hyfforddiant llawn ar bob maes yn yr adran. Fodd bynnag, roedd y sylwadau yn cynnwys y canlynol:

*“Er gwaethaf y ffaith bod yr adran yn Adran Achosion Brys fawr ... fel arfer dim ond unwaith yn ystod eu gyrfa y bydd nyrsys yr adran yn cael cyfle i fynychu cyrsiau Cynnal Bywyd Uwch ac nid ydynt yn cael cyfle i ailardystio. Yn fy marn i, dylai fod yn safon ofynnol i bob nyrs yn yr Adran Achosion Brys feddu ar gymhwyster Cynnal Bywyd Uwch cyfredol.”*

*“Hefyd, nid oes digon o gyrsiau Cynnal Bywyd Canolraddol Pediatrig i hyfforddi pawb, heb sôn am gynnig ailardystiad.”*

*“... nid yw'r rhan fwyaf o nyrsys yn yr Adran Achosion Brys yn ymdrin â mân anafiadau mwyach ac nid yw'r cenedlaethau presennol o nyrsys mewn Adrannau Achosion Brys yn meddu ar yr hen sgiliau 'sylfaenol'.”*

*“Dwi ddim yn siŵr a ydw i wedi cael yr hyfforddiant llawn ar gyfer yr Adran Achosion Brys, fel y cwrs trawma. Heb fod ar gwrs Cynnal Bywyd Uwch.”*

Gwnaethom adolygu'r cyfraddau cwblhau ar gyfer hyfforddiant Cynnal Bywyd Uwch (ALS) i staff yn yr Adran Achosion Brys, a nodwyd bod y cyfraddau yn isel. Er bod ymdrechion wedi cael eu gwneud i sicrhau bod staff nyrsio Band 6 wedi cwblhau'r cwrs hwn, rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff digon o staff yn yr Adran Achosion Brys eu hyfforddi mewn sgiliau Cynnal Bywyd Uwch i fodloni'r galw.

Gwnaethom ofyn a oedd unrhyw hyfforddiant arall a fyddai'n ddefnyddiol i'r staff. Dywedodd y staff wrthym:

*“Hyfforddiant anadlu anfewnwithiol (NIV)”*

*“Hyfforddiant sy'n ymwneud mwy â rheoli ond oherwydd lefelau staffio, does dim modd neilltuo amser ar gyfer hyfforddiant o'r fath.”*

*“Cynnal Bywyd Uwch, trawma, mân anafiadau (hyfforddiant manylach), profiad [yn] yr uned mân anafiadau”*

*“Hyfforddiant sy'n ymwneud ag aestheteg.”*

*“Hyfforddiant seicotherapi...”*

Pan ofynnwyd iddynt a oedd hyfforddiant, dysgu a datblygu yn eu helpu i wneud eu swydd yn fwy effeithiol, roedd y rhan fwyaf o'r staff yn cytuno.

Ymatebion a sylwadau gan y staff sy'n gweithio yn yr **ardaloedd asesu**:

Roedd pob aelod o'r staff yn cytuno bod y cleifion a'u perthnasau yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu gofal a bod digon o wybodaeth yn cael ei rhoi i'r cleifion.

Pan ofynnwyd iddynt a ydynt yn fodlon ar ansawdd y gofal y maent yn ei roi i'r cleifion, roedd dwy ran o dair o'r staff a atebodd yn cytuno.

Pan ofynnwyd iddynt a yw eu hysbyty yn annog gwaith tîm, roedd dwy ran o dair o'r staff yn cytuno. Fodd bynnag, dim ond ychydig dros hanner oedd yn cytuno bod y trefniadau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth ag adrannau eraill yn effeithiol.

Pan ofynnwyd iddynt a yw eu swydd yn cael effaith andwyol ar eu hiechyd, dywedodd ychydig o dan hanner y staff a atebodd ei bod yn cael effaith o'r fath. Fodd bynnag, roedd ychydig dros hanner y staff yn cytuno bod eu sefydliad yn cymryd camau gweithredu cadarnhaol mewn perthynas ag ieched a llesiant.

Pan ofynnwyd iddynt a oeddent wedi gweld unrhyw gamgymeriadau, achosion y bu ond y dim iddynt ddigwydd neu ddigwyddiadau a allai fod wedi anafu'r staff neu'r cleifion, dywedodd ychydig o dan hanner y staff eu bod wedi gweld achosion o'r fath. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf ohonynt yn cytuno bod y Bwrdd Iechyd yn cymryd camau i sicrhau na fyddant yn digwydd eto.

Pan ofynnwyd iddynt a oeddent yn teimlo eu bod wedi cael hyfforddiant priodol i gyflawni eu rôl, roedd dros ddwy ran o dair o'r staff yn cytuno. Roedd y sylwadau ar anghenion hyfforddiant pellach yn cynnwys y canlynol:

*“Lliniarol / diwedd oes”*

*“Llinellau cathetr gwythiennol canolog (CVC) gan fod gan lawer o'r cleifion linellau o'r fath.”*

*“Hyfforddiant briwiau pwysu gan fod llawer ohonynt yn gallu cael eu graddio'n anghywir”*

*“Peiriannau nwyon gwaed rhydweliol (ABG) a hyfforddiant ar gymryd samplau sy'n anelu at bennu grŵp gwaed y claf a'i nodi”*

*“Cathetereiddio”*

*“Byddai diweddariadau rheolaidd i'r Tîm Amlddisgyblaethol ar y llwybrau a'r prosesau atgyfeirio cyfredol o fudd er mwyn sicrhau y gellir cynllunio i ryddhau cleifion mewn ffordd amserol a diogel”*

Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff a atebodd fod eu hyfforddiant a'u gweithgareddau dysgu a datblygu yn eu helpu i wneud eu gwaith yn fwy effeithiol.

Gan ein bod wedi derbyn cymaint o sylwadau a'u bod mor eang eu cwmpas, ni fu'n bosibl cynnwys pob sylw yn yr adroddiad hwn. **Anogir y bwrdd iechyd i sicrhau bod sianeli cyfathrebu priodol a pharhaus ar gael i'r staff roi adborth.**

## 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

# Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni ddatryswyd unrhyw bryderon yn ystod yr arolygiad			

## Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

**Gwasanaeth:** Yr Adran Achosion Brys, Ysbyty Treforys

**Dyddiad yr arolygiad:** 5-7 Medi 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau gweithredu a gymerwyd i sicrhau y caiff y cleifion hynny yr ystyrir eu bod yn wynebu risg uchel oherwydd eu cyflwr yn cyrraedd yr adran eu huwchgyfeirio er mwyn iddynt gael eu brysbennu a'u hadolygu mewn ffordd briodol ac amserol ac iddynt dderbyn ymyriadau priodol ac amserol. Mae hyn yn cynnwys cleifion dydd a'r rhai hynny sy'n cyrraedd mewn ambiwlans.</p> <p>Ni chafodd AGIC sicrwydd bod pob agwedd ar y gofal yn cael ei chyflawni mewn modd amserol ac</p>	Safon 3.1 / 4.1 / 5.1	<ul style="list-style-type: none"> <li>Sicrhau bod staff derbynfa'r Adran Achosion Brys yn deall y broses llif cleifion â blaenoriaeth (y broses Dotiau Coch) ac yn cydymffurfio â hi Cael sicrwydd ar unwaith drwy broses archwilio fod y broses hon yn cael ei defnyddio'n briodol ac yn cael ei chynnwys wedyn fel rhan o raglen archwilio arferol yr adran.</li> </ul>	<b>Metron yr Uned Achosion Brys</b>	<b>16/09/22</b>
		<ul style="list-style-type: none"> <li>Datblygu a gweithredu safonau proffesiynol mewnol gan bennu rolau a chyfrifoldebau clir i'r staff o ran cleifion sy'n cyrraedd â chyflwr sensitif o ran amser gan gynnwys y canlynol: rhoi gwybod i'r staff am gleifion sy'n wynebu risg; yr amser cyn brysbennu a gweithgareddau brysbennu cysylltiedig a</li> </ul>	<b>Cyfarwyddwr Clinigol yr Adran Achosion Brys</b>	<b>24.09.22</b>

effeithiol yn yr Adran Achosion Brys.

**Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion cleifion a nodwyd materion difrifol gennym, y mae angen i'r bwrdd iechyd weithredu ar unwaith yn eu cylch er mwyn atal niwed i'r cleifion. Roedd yr enghreifftiau yn cynnwys y canlynol:**

- Gwelsom oedi y tu hwnt i'r canllawiau cenedlaethol wrth frysennu ac wrth gynnal adolygiad meddygol o gleifion a oedd yn cyrraedd â phoen yn y frest a symptomau cawdnychiant myocardaidd cysylltiedig. Roedd y claf wedi gorfod aros dwy awr rhwng cyrraedd a chael ei frysennu mewn un cofnod a welwyd

dogfennaeth; camau uwchgyfeirio ar gyfer cleifion sy'n mynd y tu hwnt i'r safonau rhagnodedig ym mhob un o'r categorïau brysbennu ar ôl cael asesiad meddygol.

- Cerdded drwy'r amgylchedd er mwyn cynyddu capasiti a chaniatáu ar gyfer asesiad brysbennu amserol.
- Cwblhau a gweithredu llwybrau amgen ar gyfer cleifion disgwyltiedig i'w hatal rhag dod i'r Adran Achosion Brys.
- Clustnodi'r manau a ddyrennir ar hyn o bryd i weithgareddau REACT.
- Adolygu llwybrau COVID-19 yn yr Adran Achosion Brys gan ystyried y posibilrwydd o ddefnyddio ardaloedd mewn ffordd wahanol er mwyn rhoi mwy o le i weithgareddau REACT.
- Adolygu'r llwybr poen yn y frest yn yr adran achosion brys er mwyn nodi unrhyw ddiffygion posibl. Dylid gweithredu'r argymhellion ar gyfer

**Dirprwy  
Bennaeth Nyrsio**

**16.09.22**

**30.09.22**

**Grŵp  
Gwasanaeth  
Llawfeddygol  
Arbenigol  
ASGD.**

**14.09.22**

**Cyfarwyddwr y  
grŵp  
gwasanaeth**

**26.09.22**

**Cyfarwyddwr  
Clinigol yr  
Adran Achosion  
Brys**

**29.09.22**



- Roedd claf arall wedi bod yn gorwedd ar fwrdd asgwrn cefn am gyfnod sylweddol y tu hwnt i'r canllawiau cenedlaethol ac roedd oedi wrth ddarparu ymyriadau priodol, gan gynnwys MRI, er gwaethaf y ffaith bod diffyg niwrolegol wedi cael ei gofnodi
- Roedd claf hŷn ac eiddil wedi bod yn gorwedd ar arwyneb anaddas (troli ambiwlans) am dros 11 awr ac wedi cwyno ei fod mewn poen yn ystod y cyfnod hwn.

Fel y trafodwyd yn y sesiwn adborth, mae AGIC yn cydnabod y pwysau eithriadol ar y system y mae staff yr Adran Achosion Brys yn ei wynebu ar hyn o bryd.

unrhyw newidiadau gofynnol erbyn diwedd mis Hydref 2022.

- Cydgysylltu ag Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwllans Cymru i gyflwyno matresi gorffwys i gleifion na ellir eu tynnu oddi ar un o droliâu'r Ymddiriedolaeth.
- Adolygu'r arfer o gynnal rowndiau bwriadol yn yr Adran Achosion Brys/Uned Gwneud Penderfyniadau Llawfeddygol er mwyn rhoi sicrwydd bod safonau clinigol y cytunwyd arnynt yn cael eu cyflawni mewn modd amserol.
- Adolygu'r safonau gweithredol ar gyfer mynediad diagnostig yn yr Adran Achosion Brys/Ardaloedd Asesu. Rhoi unrhyw ddiffygion a nodwyd ar waith erbyn diwedd mis Hydref 2022.
- Bwrw ati'n gyflymach i geisio datblygu cynlluniau ar gyfer osgoi derbyn cleifion i'r ysbyty a lleihau hyd arosiadau ymhellach er mwyn helpu i leihau'r bloc ymadael o'r Adran Achosion Brys yn unol â'r rhaglen Ailddylunio'r Gwasanaeth Meddygol Acíwt (AMSR).

**Meddyg  
Ymgynghorol yr  
Adran Achosion  
Brys / Dirprwy  
Bennaeth Nyrsio**

**30.09.22**

**Cyfarwyddwr  
Nyrsio  
Gweithredol**

**30.09.22**

**Dirprwy  
Bennaeth  
Nyrsio.**

**30.09.22**

**Cyfarwyddwr  
Clinigol  
Radioleg**

**21.9.22**

Caiff y cynlluniau derbyn a hyd arosiadau a nodwyd sy'n gysylltiedig â'r rhaglen AMSR eu rhoi ar waith yn ystod trydydd chwarter 2022. Nodir y meysydd ffocws isod:

Mae osgoi derbyn cleifion i'r ysbyty yn cynnwys y canlynol:

- Adolygiad stac Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru
- Wardiau rhithwir – o fewn cyrraedd
- Gwasanaeth Asesu Pobl Hŷn
- Ehangu clinigau gwib
- Gwasanaethau ymweliadau cartref
- NHS Elect – cyflyrau sensitif estynedig lle mae'r claf yn glaf dydd.

Lleihau hyd arosiadau yn Nhreforys:

- Adolygiad parhaus o'r broses wedi'i hoptimeiddio'n glinigol gan gynnal uwch-adolygiad cadarnach o'r cleifion yn y wardiau i lawr y gadwyn ac uwchgyfeirio achosion ym mhob rhan o'r bwrdd iechyd;
- Pecyn SAFER: gwaith parhaus â Gwelliant Cymru o ran

**Cyfarwyddwr y grŵp gwasanaeth, Treforys**

**Cyfarwyddwr y Grŵp Gwasanaeth, Treforys**

**Arweinydd Clinigol SDEC; AMD**

**Cyfarwyddwr Nyrsio Dros Dro, Treforys**

**Diwedd Chwarter 3 2022 yn erbyn y cynllun AMSR**

- rowndiau'r bwrdd a data amser real;
- Cyflwyno datrysiadau digidol er mwyn helpu i reoli llif yn effeithiol – dangosfwrdd diogelwch; Signal 3;
- Adolygu'r Uned Gwneud Penderfyniadau Llawfeddygol a'r capasiti cysylltiedig er mwyn cefnogi llif effeithiol ar gyfer derbyniadau llawfeddygol brys;
- Adolygu'r polisi ar gyfer dychwelyd cleifion i'r byrddau iechyd priodol ar y cyd â'r Uned Llawfeddygaeth Ddydd ar gyfer cleifion nad ydynt yn gleifion y Ganolfan Trawma Fawr;
- Adlinio capasiti gwelyau i fodloni'r galw o ran arbenigeddau a diweddarau polisiâu rheoli'r safle er mwyn helpu i reoli llif yn effeithiol
- Cynllun lleihau hyd arosiadau ym mhob rhan o'r bwrdd iechyd er mwyn cefnogi llif effeithiol drwy'r system. Mae hyn yn cynnwys:

**Cyfarwyddwr  
Nyrsio Dros Dro,  
Treforys**

**Dirprwy  
Gyfarwyddwr y  
Grŵp  
Gwasanaeth,  
Treforys**

**ASGD-ISSG**

**Cyfarwyddwr y  
Grŵp  
Gwasanaeth,  
Treforys**

- Gwasanaeth mewngymorth gan y tîm cymunedol er mwyn helpu i osgoi derbyn cleifion i'r ysbyty wrth y drws ffrynt.
- Comisiynu gwelyau trosiannol ychwanegol er mwyn cefnogi cleifion sy'n aros am raglen gofal barhaus.
- Ehangu wardiau rhithwir a'r capasiti gartref yn gyntaf.
- Comisiynu adolygiad o'r galw a'r capasiti cymunedol i alinio adnoddau ym mhob rhan o'r bwrdd iechyd er mwyn bodloni'r galw.
- Ehangu'r gwasanaethau ymateb cyflym er mwyn helpu i osgoi derbyn cleifion i'r ysbyty ac achosion gofal brys ar yr un diwrnod.
- Sefydlu cyfarfodydd adolygu meysydd wythnosol i'r uwch-staff er mwyn trafod heriau rhyddhau.
- Ehangu gwasanaethau rhyddhau cynnar â chymorth ym maes strôc, eiddilwch ac orthopaedeg er mwyn helpu cleifion i adsefydlu gartref yn hytrach nag yn yr ysbyty.

### **Tri Phennaeth y Grwpiau Gwasanaeth**

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth: K Hannam

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd: Cyfarwyddwr Dros Dro y Grŵp Gwasanaeth, Ysbyty Treforys

Dyddiad: 14 Medi 2022

# Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Yr Adran Achosion Brys a'r Ardaloedd Asesu (yn unol â thudalen 5), Ysbyty Treforys

Dyddiad yr arolygiad: 5-7 Medi 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Yn yr Adran Achosion Brys a'r Uned Gwneud Penderfyniadau Llawfeddygol, rhaid i'r Bwrdd Iechyd adolygu'r defnydd a wneir o seddau addas yn yr adran ac argaeledd seddau o'r fath i gleifion a gaiff eu derbyn dros nos a rhaid iddo sicrhau bod digon o obenyddion a blancedi ar gael.		Cyflwynwyd cais am gyllid cenedlaethol er mwyn helpu i wella ardaloedd aros yn yr Adran Achosion Brys	Rheolwr y Gyfarwyddiaeth - Yr Adran Achosion Brys	WEDI'I GWBLHAU - Cadarnhawyd y cyllid ac mae'n cynnwys arian i adnewyddu Ardaloedd y Staff
		Archebwyd stoc ychwanegol o obenyddion (60 yr wythnos) a byddant ar gael yn Ystafell Dillad Gwely'r Adran Achosion Brys.	Metron Ansawdd a Diogelwch Treforys	WEDI'I GWBLHAU
		Caiff gwybodaeth ei harddangos yn Ystafelloedd Dillad Gwely'r Adran Achosion Brys a'r Uned Gwneud Penderfyniadau Llawfeddygol i atgoffa'r staff fod blancedi ychwanegol ar gael yn	Metron Ansawdd a Diogelwch Treforys	WEDI'I GWBLHAU

	<p>yr Ystafell Dillad Gwely Ganolog. 24/7</p> <p>Dylid sicrhau bod “ED pillow” wedi'i nodi'n glir ar y gobenyddion er mwyn gallu eu casglu a'u dychwelyd i'r Adran Achosion Brys</p> <p>Cyfarfod ag Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru (rheolwyr ardal) gan gynnwys trafodaeth am gyflenwi a dychwelyd dillad gwely i griwiau'r Ymddiriedolaeth a chanddynt pan fyddant ar y safle.</p> <p>Adolygu'r cyfleoedd i gynyddu nifer y seddi mwy cyfforddus yn ystafell aros yr Uned Gwneud Penderfyniadau Llawfeddygol.</p>	<p>Metron Dros Dro - Yr Adran Achosion Brys</p> <p>Dirprwy Bennaeth Nyrsio - Yr Adran Achosion Brys</p> <p>Pennaeth Nyrsio Dros Dro - ISSG/ Metron ISSG</p>	<p>gydymffurfio â gofynion atal a rheoli heintiau, rydym yn trafod y mater â'r cyflenwyr</p> <p>WEDI'I GWBLHAU - cytunwyd ar bolisi 1 am 1 ac fe'i rhoddwyd ar waith</p> <p>WEDI'I GWBLHAU Cafwyd dwy gadair orwedd ychwanegol</p>
<p>2. Yn yr Adran Achosion Brys, rhaid i'r Bwrdd lechyd sicrhau y caiff y broses o leoli cleifion yn yr adran ei hadolygu er mwyn hyrwyddo preifatrwydd ac urddas.</p>	<p>Diweddarau'r Sgrym Diogelwch a gynhelir ddwywaith y dydd yn yr Adran Achosion Brys i gynnwys asesiad risg o ffactorau</p>	<p>Dirprwy Bennaeth Nyrsio - Yr Adran Achosion Brys</p>	<p>WEDI'I GWBLHAU</p>

		preifatrwydd ac urddas yn ogystal ag ystyriaethau clinigol.		
3. Yn yr Adran Achosion Brys, dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'r gwasanaethau cyfieithu swyddogol sydd ar gael er mwyn sicrhau llif gwybodaeth briodol rhwng y claf a'r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol.		Gweithdrefn Weithredu Safonol ddiwygiedig ar gyfer Staff Derbynfa'r Adran Achosion Brys er mwyn helpu i nodi cleifion sy'n wynebu risg uchel gan gynnwys y gofyniad am wasanaeth cyfieithu  Adolygu proses REACT er mwyn sicrhau y caiff gofynion cyfathrebu/iaith y cleifion hynny sy'n cyrraedd mewn ambiwlans eu hasesu a lle bo angen bod proses glir ar waith ar gyfer caffael cymorth cyfieithu	Rheolwr y Gyfarwyddiaeth - Yr Adran Achosion Brys  Dirprwy Bennaeth Nyrsio - Yr Adran Achosion Brys	WEDI'I GWBLHAU  WEDI'I GWBLHAU - rhan o'r broses asesu risg
4. Yn yr Adran Achosion Brys, rhaid i'r Bwrdd lechyd sicrhau bod digon o wybodaeth am sut i roi adborth neu sut i gwyno i'w gweld mewn lleoliadau allweddol o amgylch yr adran.		Adolygu'r hysbysfyrddau cyhoeddus sy'n rhoi gwybodaeth i ymwelwyr â'r Adran Achosion Brys am sut i gwyno a rhoi adborth a sicrhau bod gwybodaeth briodol ar gael i'r cyhoedd -  Arddangos posteri "Cod QR" yn yr Adran Achosion Brys er mwyn	Metron Ansawdd a Diogelwch Treforys / Tîm Gwasanaeth Cyngor a Chyswllt Cleifion (PALS) Treforys	WEDI'I GWBLHAU - ailesefydlwyd y drefn fisol o gynnal gwiriadau PALS  WEDI'I GWBLHAU



	<p>galluogi'r cleifion i roi adborth electronig drwy ffonau symudol</p> <p>Cynnal adolygiad dwfn (bwrdd gwaith) o adborth profiad y claf o'r Adran Achosion Brys, gan ganolbwyntio ar ffactorau achosol a chyfrannol allweddol sy'n dylanwadu ar brofiadau cadarnhaol a negyddol <i>(Mae'r Adran Achosion Brys wedi derbyn tua 2800 o arolygon electronig i system Civica y Bwrdd Iechyd ers mis Ionawr 2022)</i></p>	<p>Rheolwr y Gyfarwyddiaeth - Yr Adran Achosion Brys</p> <p>Metron Ansawdd a Diogelwch Treforys / Tîm Gwasanaeth Cyngor a Chyswllt Cleifion (PALS) Treforys</p>	<p>Erbyn 31/12/2022 - i'w rannu yng Nghyfarfodydd Is-adrannol a chyfarfod Ansawdd a Diogelwch Treforys ym mis Ionawr 2023 ac yng nghyfarfod Grŵp Profiad Cleifion a Rhanddeiliaid y Bwrdd Iechyd ym mis Chwefror 2023</p>
<p>5. Ym mhob ardal, yn enwedig yr Uned Gwneud Penderfyniadau Llawfeddygol, rhaid i'r Bwrdd Iechyd sicrhau nad yw'r ardaloedd a ddisgrifiwyd yn flêr er mwyn lleihau'r risg y ceir peryglon baglu.</p>	<p>Rhodddwyd adborth a gwybodaeth am y gwersi a ddysgwyd o ymweliad AGIC â'r Adran Achosion Brys a'r Ardaloedd Asesu i bob Pennaeth Nyrsio Is-adrannol</p> <p>Rhannwyd Adroddiad Drafft AGIC: Yr Adran Achosion Brys a'r Ardaloedd Asesu yng nghyfarfod Grŵp Ansawdd a Diogelwch y Bwrdd Iechyd</p>	<p>Penaethiaid Nyrsio Is-adrannol</p> <p>Pennaeth Ansawdd a Diogelwch y Bwrdd Iechyd</p>	<p>WEDI'I GWBLHAU</p> <p>WEDI'I GWBLHAU - eitem ar yr agenda 15/11/2022</p>

	<p>Rhannwyd Adroddiad AGIC: Yr Adran Achosion Brys a'r Ardaloedd Asesu yng nghyfarfod Bwrdd Nyrsio a Bydwreigiaeth y Bwrdd Iechyd</p> <p><i>Mae adolygu'r risgiau amgylchedd/diogelwch yn rhan o broses archwilio fisol y Fetron.</i></p> <p>Archwiliad misol y Fetron o'r Uned Gwneud Penderfyniadau Llawfeddygol/Uned Asesu Cyflym i ganolbwyntio'n benodol ar risgiau amgylchedd/diogelwch fel rhan o adolygiad mis Tachwedd 2022</p> <p>Ymweliad lle rhoddir rhybudd er mwyn gwneud hapwiriadau yn yr Uned Gwneud Penderfyniadau Llawfeddygol</p> <p>Sesiwn Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Risg er mwyn helpu Metronau i nodi risgiau</p>	<p>Pennaeth Nyrsio Corfforaethol (Bwrdd Iechyd)</p> <p>Pennaeth Nyrsio - Meddyginiaeth/Pennaeth Nyrsio ISSG</p> <p>Metron - ISSG</p> <p>Dirprwy Bennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg</p> <p>Cyfarwyddwr Nyrsio Dros Dro - Treforys</p>	<p>Y Cyfarfod Nesaf sydd ar Gael (Rhagfyr 2022)</p> <p>WEDI'I GWBLHAU</p> <p>WEDI'I GWBLHAU</p> <p>WEDI'I GWBLHAU (Cyfarfod Metronau Treforys - Hydref 2022)</p> <p>Gohiriwyd y dyddiad gweithredu - dyddiad diwygiedig erbyn 01/12/2022</p>
--	---	--	--

		<p>Rhoi'r Broses "15 Cam" dan arweiniad Cyfarwyddwyr ar waith yn Nhreforys</p> <p>Ymweliadau amlddisgyblaethol wythnosol i gerdded ar hyd coridorau'r safle, gan gynnwys tîm y safle, ystadau, swyddogion domestig a phorthorion</p> <p>Datblygu trefniadau labelu a storio clir ar gyfer cyfarpar a gondemniwyd i'w symud o'r coridorau</p> <p>"Amnest Cyfarpar" rheolaidd - ddwywaith y flwyddyn</p>	<p>Dirprwy Bennaeth Nyrsio - Gweithrediadau Ysbyty</p> <p>Dirprwy Bennaeth Nyrsio - Gweithrediadau Ysbyty/Pennaeth Porthorion</p> <p>Cyfarwyddwr Nyrsio Dros Dro - Treforys</p>	<p>WEDI'I GWBLHAU - bob wythnos ar ddydd Gwener, cymerwyd camau ar unwaith</p> <p>31/12/2022 - Gweithdrefn Weithredu Safonol wrthi'n cael ei datblygu ac yn aros i'w chymeradwyo gan bob parti cysylltiedig</p> <p>Erbyn 31/03/2023 (digwyddiad diwethaf 31/08/ a 01/09/2022)</p>
6. Yn yr Uned Asesu Cyflym a'r Uned Gwneud Penderfyniadau Llawfeddygol, rhaid i'r Bwrdd lechyd sicrhau bod drysau ystafelloedd cyfleustodau wedi'u cloi pan na		Yn ystod sgrymiau diogelwch a chyfarfodydd nyrsio, codwyd ymwybyddiaeth o ddiogelwch ac y dylid cloi ystafelloedd cyfleustodau.	Metron - ISSG Metron - Meddyginiaeth	WEDI'I GWBLHAU

<p>fyddant yn cael eu defnyddio er mwyn atal unrhyw fynediad anawdurdodedig.</p>		<p>Arwyddion ar y drysau i atgoffa'r staff bod angen cloi'r drysau.</p>		
<p>7. Yn yr Ardaloedd Asesu, yn enwedig yr Uned Asesu Cyflym, rhaid i'r Bwrdd lechyd ystyried diogelwch y wardiau o ystyried y grwpiau cleifion sy'n cael gofal yn yr ardaloedd hyn.</p>		<p><b>Gweler y camau gweithredu a'r diweddariadau a roddwyd ym mhwyntiau 5 a 6 uchod</b></p> <p><b>Mae'r canlynol ar gael i BOB lleoliad ar safle Ysbyty Treforys</b></p> <p>Diogelwch Bwrdd lechyd ar y safle ar gael 24/7 yn Ysbyty Treforys</p> <p>Presenoldeb penodol gan Heddlu De Cymru ar y safle</p>	<p>Dirprwy Bennaeth Gwasanaethau Cymorth y Bwrdd lechyd</p> <p>Rheolwr y Gyfarwyddiaeth Gweithrediadau Ysbyty - Treforys</p>	<p>WEDI'I GWBLHAU - mae'r staff diogelwch wedi cael hyfforddiant priodol i gadw unigolion hyd nes y bydd yr heddlu yn cyrraedd. Caiff camerâu corff eu gwisgo.</p> <p>WEDI'I GWBLHAU (mae swyddog penodol ar y safle ar hyn o bryd fel rhan o</p>

				Dîm Diogelwch yr ysbyty)
8. Ym mhob ardal, rhaid i'r Bwrdd lechyd sicrhau y rhoddir blaenoriaeth briodol i faterion cynnal a chadw a dylai ystyried sylwadau'r staff yn yr adran hon o'r adroddiad.		<p>Ymweliadau rheolaidd â'r Adran Achosion Brys gyda'r adran Ystadau er mwyn tynnu sylw at feysydd gwaith gofynnol.</p> <p>Uwchgyfeirio risgiau amgylcheddol/seilwaith yn Ysbyty Treforys drwy Broses Uwchgyfeirio Risgiau fisol, ar gyfer Tachwedd 2022</p> <p><i>Cydnabyddir bod aelodau o'r staff, yn eu hadborth, wedi nodi eu rhwystredigaeth mewn perthynas â'r oedi a'r diffyg ymateb gan yr adran Ystadau</i></p> <p>Uwch-aelodau o staff yr Adran Achosion Brys i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r staff am faterion Ystadau fel rhan o Gyfarfodydd Tîm misol rheolaidd</p>	<p>Dirprwy Bennaeth Nyrsio - Yr Adran Achosion Brys</p> <p>Pennaeth Grŵp Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad y Claf</p> <p>Dirprwy Bennaeth Nyrsio - Yr Adran Achosion Brys/ Metron Dros Dro - Yr Adran Achosion Brys</p>	<p>WEDI'I GWBLHAU - gweler pwynt 5 uchod am gamau gweithredu ar gyfer y safle cyfan</p> <p>WEDI'I GWBLHAU Rhestr Mân Broblemau ar waith</p> <p>WEDI'I GWBLHAU Diweddiadau fel rhan o'r strwythur newydd ar gyfer cyfarfodydd staff (gweler pwynt 25 isod)</p>

<p>9. Ym mhob ardal, rhaid i'r Bwrdd lechyd sicrhau y caiff pob grŵp staff ei atgoffa o bwysigrwydd hylendid dwylo da a defnydd priodol o fenig yn unol â pholisi'r bwrdd iechyd.</p>		<p>Mae trefniadau rheolaidd ar waith ar gyfer hylendid dwylo ac mae'n rhan o'r holl waith ar gyfer monitro prosesau atal a rheoli heintiau rheolaidd Grŵp Gwasanaeth Treforys</p> <p>Cynllun Gwella Wardiau 8 wythnos Atal a Rheoli Heintiau Treforys - yn canolbwyntio ar wella ymwybyddiaeth o brosesau atal heintiau a hyfforddiant cysylltiedig</p> <p>Cadarnhau cydymffurfiaeth yr Uned Gwneud Penderfyniadau Llawfeddygol â hyfforddiant hylendid dwylo</p> <p>Cynnwys cyfarwyddiadau ar ddefnyddio menig fel rhan o'r Diwrnodau Astudio Hyfforddiant Gorfodol Blynyddol yn yr Adran Achosion Brys - gan gynnwys staff meddygol</p>	<p>Cyfarwyddwr Nyrsio Dros Dro'r Grŵp</p> <p>Cyfarwyddwr Nyrsio Dros Dro'r Grŵp</p> <p>Metron - ISSG</p> <p>Arweinydd Hyfforddiant Gorfodol - Yr Adran Achosion Brys</p> <p>Nyrs â Chyfrifoldeb - Yr Adran Achosion Brys</p>	<p>WEDI'I GWBLHAU</p> <p>WEDI'I GWBLHAU (Awst-Medi 2022)</p> <p>WEDI'I GWBLHAU 100% wedi'u hyfforddi ar hylendid dwylo 100% wedi cael archwiliad hylendid dwylo (ym mis Hydref 22)</p> <p>Nyrsio WEDI'I GWBLHAU Cynnwys Staff Meddygol mewn Diwrnodau Astudio Hyfforddiant Gorfodol o fis Ionawr 2023 WEDI'I GWBLHAU</p>
---	--	---	--	--

		<p>Arsylwi dyddiol</p> <p>Adborth ar ganlyniad yr adroddiad i Dîm Atal a Rheoli Heintiau'r Bwrdd lechyd er mwyn ystyried cynnwys "Defnyddio Menig" fel rhan o'r pecyn Hyfforddiant Hylendid Dwylo safonol</p>	<p>Pennaeth Grŵp Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad y Claf</p>	<p>WEDI'I GWBLHAU - adborth i staff yr Adran Achosion Brys yn ystod sgrymiau dyddiol ac adborth ad hoc i aelodau timau sy'n ymweld yn y fan a'r lle</p> <p>WEDI'I GWBLHAU Rhoddwyd copi o'r adroddiad terfynol i Bennaeth Nyrsio'r Bwrdd lechyd ar gyfer atal a rheoli heintiau</p>
<p>10. Ym mhob ardal, rhaid i'r Bwrdd lechyd sicrhau y caiff dyfeisiau y gallir eu haildefnyddio eu glanhau rhwng cleifion.</p>		<p>Dylid atgoffa POB aelod o staff o bwysigrwydd dihalogi cyfarpar rhwng cleifion a sut i uwchgyfeirio ymholiadau neu bryderon - yn ystod y cyfarfod staff nesaf sydd ar gael</p> <p>Arsylwi dyddiol</p>	<p>Penaethiaid Nyrsio Is-adrannol</p> <p>Nyrs â Chyfrifoldeb - Yr Adran Achosion Brys</p>	<p>WEDI'I GWBLHAU</p> <p>WEDI'I GWBLHAU - adborth i staff yr Adran Achosion Brys yn ystod sgrymiau</p>

		<p>Sicrhau y caiff archwiliadau atal a rheoli heintiau rheolaidd eu sefydlu a'u bod yn cynnwys adolygu dyfeisiau y gellir eu hailddefnyddio</p> <p>Diweddarau'r cyngor ar sut i sicrhau bod dyfeisiau y gellir eu hailddefnyddio yn cael eu glanhau a gwneud yn siŵr ei fod ar gael ac yn hygyrch i bob aelod o'r staff</p> <p>Gofyn am gymorth arbenigol gan Arweinydd Dihalogi'r Bwrdd lechyd er mwyn adolygu ac asesu cyfarpar yr Adran Achosion Brys</p> <p><i>Nodwyd bod dihalogi yn flaenoriaeth ansawdd fel rhan o Nod Atal Heintiau cyffredin</i></p>	<p>Penaethiaid Nyrsio Is-adrannol</p> <p>Penaethiaid Nyrsio Is-adrannol</p> <p>Dirprwy Bennaeth Nyrsio - Yr Adran Achosion Brys</p> <p>Pennaeth Grŵp Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad y Claf</p>	<p>dyddiol ac adborth ad hoc i aelodau timau sy'n ymweld yn y fan a'r lle</p> <p>WEDI'I GWBLHAU</p> <p>WEDI'I GWBLHAU</p> <p>Erbyn 30/11/2022</p> <p>WEDI'I GWBLHAU</p>
--	--	---	---	---



		<p>Cynrychiolaeth grŵp ar Is-grŵp Blaenoriaeth Ansawdd Dihalogi'r Bwrdd Iechyd (bob chwarter)</p> <p>Monitro a chyflwyno adroddiadau rheolaidd ar lwyddiannau, blaenoriaethau, cyfleoedd a risgiau dihalogi gan gynnwys fel rhan o Raglen Waith Flynyddol Ansawdd a Diogelwch y Grŵp (adolygiad chwarterol)</p>	<p>Pennaeth Grŵp Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad y Claf</p>	<p>(Pennaeth Grŵp Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad y Claf)</p> <p>WEDI'I GWBLHAU System adroddiadau chwarterol ar waith</p>
<p>11. Yn yr Adran Achosion Brys, rhaid i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cwblhau hyfforddiant gorfodol mewn modd amserol.</p>	<p><b>Gweler y camau gweithredu a'r diweddariad o dan bwynt 9 uchod</b></p> <p>Rhodddwyd amser penodol i staff yr Adran Achosion Brys gwblhau a chynnal hyfforddiant ar Gofnodion Staff Electronig</p> <p><i>O ganlyniad i broblemau trosglwyddo data o fewn systemau Cofnodion Staff Electronig, NID yw staff meddygol ar hyfforddiant cylchdro, sydd wedi cwblhau</i></p>	<p>Dirprwy Bennaeth Nyrsio - Yr Adran Achosion Brys / Arweinydd Hyfforddiant Meddygol yr Adran Achosion Brys</p>	<p>30/03/2023</p> <p>Adrodd ar gydymffurfiaeth drwy'r Cofnod Staff Electronig (Tachwedd 2022)</p> <p>68% ar gyfer Nyrsio a 35% ar gyfer Meddygol (yn erbyn safon o 85%)</p>	

	<p><i>hyfforddiant gorfodol mewn sefydliadau eraill, yn cael eu trosglwyddo i'w swyddi newydd</i></p> <p>Caiff cydymffurfiaeth nyrsys â hyfforddiant gorfodol ei monitro yn ystod cyfarfodydd ECHO misol y Bwrdd</p>	<p>Dirprwy Bennaeth Nyrsio - Yr Adran Achosion Brys / Arweinydd Hyfforddiant Meddygol yr Adran Achosion Brys</p>	<p>Ar waith</p>
<p>12. Yn yr Adran Achosion Brys, rhaid i'r Bwrdd lechyd sicrhau y caiff anghenion maethol eu hasesu'n llawn a'u dogfennu, ac y caiff mwy o fwyd ei ddarparu.</p>	<p><b>Y SEFYLLFA BRESENNOL</b> <i>Mae'r cleifion yn cael brecwast (oer), cinio (poeth) a swper (oer). Mae diodydd poeth a brechdanau ar gael dros nos.</i></p> <p><i>Mae poteli o ddŵr â chwpan tafladwy ar gael a chânt eu cynnig yn rheolaidd 24/7 Yn ogystal, mae peiriannau gwerthu bwyd ar gael</i></p> <p>Datblygu gwasanaeth "gweinydd" i helpu'r Adran Achosion Brys</p>	<p>Metron Dros Dro - Yr Adran Achosion Brys</p>	<p>Mae'r sefyllfa bresennol yn adlewyrchu cyfyngiadau amgylcheddol Adran Achosion Brys - dim byrddau i'r cleifion allu bwyta a'r gofynion safonau bwyd ehangach o ran sicrhau diogelwch cleifion</p> <p>30/11/2022</p>

	<p>Ychwanegu opsiwn bwyd “poeth” ychwanegol i'r cynnig gyda'r nos</p> <p>Ceisio cytundeb gan y gwasanaethau arlwyo i gefnogi gofynion deietegol eithriadol i gleifion pan fyddant yn yr Adran Achosion Brys</p> <p>Adolygu polisi cyfredol y Bwrdd Iechyd ar Faeth a Hydradu er mwyn penderfynu a oes llinell sylfaen bresennol ar gyfer darparu bwyd yn yr Adran Achosion Brys</p> <p>Meincnodi'r Adran Achosion Brys yn erbyn yr “arferion gorau” sydd ar gael ar gyfer darparu maeth a hydradu mewn adran achosion brys/ardal asesu</p> <p>Datblygu cyfres o safonau ffurfiol sy'n gymwys i adran achosion brys/ardal asesu - i'w ystyried ym mhob rhan o'r Bwrdd Iechyd</p>	<p>Metron Dros Dro - Yr Adran Achosion Brys</p> <p>Metron Dros Dro - Yr Adran Achosion Brys</p> <p>Pennaeth Grŵp Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad y Claf</p> <p>Metron Dros Dro - Yr Adran Achosion Brys</p> <p>Pennaeth Nyrsio - Yr Adran Achosion Brys /</p>	<p>CAIS AM SWYDD WAG YN AROS I'W GYMERADWYO (2 Aelod o Staff cyfwerth ag amser cyflawn)</p> <p>O 22/11/2022</p> <p>WEDI'I GWBLHAU - yn cynnwys gofynion diwylliannol a chrefyddol</p> <p>WEDI'I GWBLHAU (dim canllawiau penodol ar y safonau maeth a hydradu disgwylidig i gleifion sy'n aros yn yr Adran Achosion Brys)</p> <p>WEDI'I GWBLHAU (ni nodwyd unrhyw safon gyffredinol)</p>
--	---	---	---

			Arweinydd Enwebedig y Grŵp ar gyfer Maeth a Hydradu / Dirprwy Bennaeth Nyrsio - Yr Adran Achosion Brys	Erbyn 31/01/2023
13. Yn yr Ardaloedd Asesu, dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod unrhyw ofynion deietegol, gan gynnwys alergeddau, i'w gweld yn ddigon clir i bob aelod o'r staff.		<p><i>Nid oes gan yr <b>Uned Asesu Cyflym</b> weinydd penodol i helpu'r ward ar hyn o bryd, felly mae staff y ward yn helpu i weini bwyd i'w cleifion</i></p> <p><i>Nodwch y bydd gan yr <b>Uned Feddygol Aciwt</b> newydd yn Ysbyty Treforys wasanaethau arlwyo penodol, wedi'u cefnogi gan staff arlwyo (disgwylir i'r uned agor ym mis Rhagfyr 2022)</i></p> <p><i>Mae'r <b>Uned Gwneud Penderfyniadau Llawfeddygol</b> wedi cadarnhau bod ganddi weinydd ar gyfer yr Uned - ond dim ond yn ystod y dydd o ddydd Llun i ddydd Gwener y mae'r adnodd hwn ar gael.</i></p> <p><i>Mae pob aelod o staff Band 7, Band 6 a'r gweinydd wedi cael hyfforddiant ymwybyddiaeth o</i></p>		WEDI'I GWBLHAU

		<p><i>alergeddau (Mawrth 2021 ac Ebrill 2022)</i></p> <p>Cadarnhau bod gwybodaeth am ymwybyddiaeth o alergeddau ar gael ar y ward a'i bod yn hygyrch i'r staff</p>	<p>Metron Lawfeddygol - Yr Uned Gwneud Penderfyniadau Llawfeddygol</p>	<p>Cadarnhawyd yn ystod ymweliad ar 10/11/2022</p>
<p>14. Yn yr Uned Gwneud Penderfyniadau Llawfeddygol, rhaid i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod mynediad i'r ystafelloedd meddyginiaeth yn ddiogel bob amser.</p>		<p><b>Gweler y camau gweithredu ym mhwynt 5 uchod</b></p> <p>Ymweliad Arsylwi Dirybudd â'r Uned Gwneud Penderfyniadau Llawfeddygol</p>	<p>Metron - ISSG</p>	<p>WEDI'I GWBLHAU</p> <p>Cadarnhawyd bod y drws wedi'i gloi yn ystod ymweliad ar 10/11/2022</p>
<p>15. Yn yr Ardaloedd Asesu, dylai'r bwrdd iechyd ystyried a oes angen amser gwarchoddedig neu system tabardau coch er mwyn sicrhau y gallir rhoi meddyginiaethau mewn ffordd ddiogel a thawel.</p>		<p>Y Penaethiaid Nyrsio i ystyried a yw'r dull hwn o reoli meddyginiaethau mewn ardal asesu yn ymarferol - gan gynnwys ar gyfer cleifion brys a chleifion arhosiad byr</p>	<p>Pennaeth Nyrsio ISSG / Metron ISSG</p>	<p>WEDI'I GWBLHAU</p> <p>Oherwydd natur yr Uned Gwneud Penderfyniadau Llawfeddygol sy'n cynnwys cleifion arhosiad byr, mae'n naturiol y bydd angen meddyginiaethau ar gleifion (yn enwedig meddyginiaethau rheoli poen) ar wahanol adegau yn ystod y dydd o ganlyniad i amrywiol amseroedd derbyn ac</p>

				<p>amseroedd arfaethedig ar gyfer triniaethau.</p> <p>Bydd amserlen strwythuredig ar gyfer rhoi meddyginiaethau (fel y ceir mewn amgylchedd ward arhosiad hwy) yn arwain at risg y caiff poen cleifion ei rheoli'n wael ac y bydd oedi wrth ryddhau cleifion - gan ymestyn hyd arosiadau ar yr Uned</p>
<p>16. Yn yr Uned Gwneud Penderfyniadau Llawfeddygol, rhaid i'r Bwrdd lechyd sicrhau y caiff cofnodion nyrsio a siartiau mewn perthynas â rheoli meddyginiaethau eu cwblhau'n briodol.</p>		<p>Proses Adolygu Meddyginiaethau gan Uwch-nyrsys yn yr Uned Gwneud Penderfyniadau Llawfeddygol</p> <p><i>Mae'r Bwrdd lechyd wrthi'n rhoi system rhagnodi a rhoi meddyginiaethau electronig ar waith - HEPMA</i></p>	<p>Pennaeth Nyrsio - ISSG / Metron ISSG</p>	<p>WEDI'I GWBLHAU Oherwydd yr amseroedd derbyn amrywiol (gan gynnwys ar gyfer cleifion y cynlluniwyd triniaethau ar eu cyfer) cleifion i'r uned asesu, caiff siartiau meddyginiaeth eu llunio ar gyfer y diwrnod ar adeg</p>

		<p>Mae system HEPMA ar waith ar hyn o bryd o fewn Arbenigeddau Meddygol ond caiff ei chyflwyno o fewn Arbenigeddau Llawfeddygol yn unol â'r cynllun prosiect cyffredinol</p>	<p>Arweinydd Prosiect HEPMA y Bwrdd Iechyd</p>	<p>derbyn y claf - felly mae'n bosibl y bydd bylchau ar y siart gan ddibynnu ar leoliad y claf ar ei lwybr Disgwylir i'r prosiect gael ei gwblhau erbyn 31/03/2023</p>
<p>17. Yn yr Adran Achosion Brys, rhaid i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cwblhau hyfforddiant gorfodol ar ddiogelu oedolion a phlant mewn modd amserol, yn enwedig ymhlith y staff meddygol lle roedd y ffigurau yn sylweddol is.</p>	<p><i>O ganlyniad i broblemau trosglwyddo data o fewn systemau Cofnodion Staff Electronig, NID yw staff meddygol ar hyfforddiant cylchdro, sydd wedi cwblhau hyfforddiant gorfodol mewn sefydliadau eraill, yn cael eu trosglwyddo i'w swyddi newydd.</i></p> <p>Adolygu a rhoi sicrwydd ynghylch y broses bresennol ar gyfer cadw cofnodion cywir am hyfforddiant staff meddygol er mwyn:</p>	<p>Arweinydd Clinigol - Yr Adran Achosion Brys</p>	<p>Cydymffurfiaeth bresennol Staff Meddygol o ran y Cofnod Staff Electronig <b>Oedolion = 43%</b> <b>Plant - 47%</b></p> <p>Erbyn 28/02/2023</p>	





		<p>Gwneud Penderfyniadau Llawfeddygol yw 39%.          Caiff camau eu cymryd i sicrhau bod y gyfradd gydymffurfiaeth â hyfforddiant o ran y trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid yn cyflawni'r targed lleol o 85% ac y caiff ei monitro wedi hynny.</p>		28/02/2023
<p>19. Efallai yr hoffai'r Bwrdd Iechyd adolygu argaeledd y Gwasanaeth Asesu Pobl Hŷn (OPAS) fel ffordd arall o leihau derbyniadau.</p>		<p>Cydnabyddir yr argymhelliad          Fel rhan o'r rhaglen Ailddylunio Gwasanaethau Meddygol Acíwt, bydd y Gwasanaeth Asesu Pobl Hŷn yn rhan o'r gwasanaethau Gofal Brys ar yr Un Diwrnod. Rydym wedi cynyddu ein gweithlu uwch-ymarferwyr nyrzio yn ddiweddar ar gyfer y Gwasanaeth Asesu Pobl Hŷn er mwyn darparu gwasanaeth dros gyfnod hwy.          Mae BIP Bae Abertawe yn gweithio gydag NHS Elect er mwyn helpu i ddatblygu</p>	<p>Cyfarwyddwr          Gwasanaeth y Grŵp</p>	WEDI'I GWBLHAU

		gwasanaethau gofal brys ar yr un diwrnod.		
20. Yn yr Adran Achosion Brys, rhaid i'r Bwrdd lechyd sicrhau y caiff y cofnodion eu diweddarau ar y pryd.		<p>Caiff y staff eu hatgoffa o bwysigrwydd diweddarau gwybodaeth iechyd y cleifion ar y pryd pan fyddant wedi bod yn yr Adran Achosion Brys am gyfnod hir</p> <p>Canlyniadau'r broses archwilio FOC misol - yn ymwneud â chwblhau dogfennau ac ansawdd i'w hadolygu'n fisol fel rhan o ddangosyddion perfformiad allweddol yr Adran Achosion Brys</p>	<p>Dirprwy Bennaeth Nyrsio - Yr Adran Achosion Brys / Metron Dros Dro - Yr Adran Achosion Brys</p> <p>Metron Dros Dro - Yr Adran Achosion Brys</p>	<p>WEDI'I GWBLHAU - rhan o'r sgrym a gynhelir ddwywaith y dydd</p> <p>WEDI'I GWBLHAU</p>
21. Yn yr Ardaloedd Asesu, rhaid i'r Bwrdd lechyd ystyried effeithiolrwydd cyffredinol gwneud cofnodion yn nodiadau'r cleifion unwaith y dydd yn unig.		Proses Adolygu Cofnodion Nyrsio gan Uwch-nyrsys yn yr Uned Gwneud Penderfyniadau Llawfeddygol - archwiliad hapwiriadau ar raddfa fach	Pennaeth Nyrsio - ISSG / Metron ISSG	WEDI'I GWBLHAU Adolygwyd cofnodion dau glaf Tystiolaeth o nodiadau yn cael eu gwneud ar y pryd drwy gydol y dydd

		<p>Cyflwyno Cofnod Nyrsio Electronig Cymru</p> <p>Archwiliad dilynol o drefniadau cadw cofnodion yr Uned Gwneud Penderfyniadau Llawfeddygol - yn unol â gofynion Cofnod Nyrsio Electronig Cymru</p>	<p>Arweinydd Prosiect Cofnod Nyrsio Electronig Cymru y Bwrdd Iechyd / Pennaeth Nyrsio - ISSG</p> <p>Pennaeth Nyrsio - ISSG / Metron ISSG</p>	<p>WEDI'I GWBLHAU - cwblhawyd y broses o'i gyflwyno yn yr Uned Gwneud Penderfyniadau Llawfeddygol</p> <p>Erbyn 31/12/2022</p>
<p>22. Yn yr Uned Achosion Brys Plant, rhaid i'r Bwrdd Iechyd adolygu lefelau staffio nyrsys pediatrig mewn ffordd gadarn a chynaliadwy gan fod yr Uned yn darparu gwasanaeth brys 24/7.</p>		<p>Datblygu Cynllun Gweithlu Nyrsio'r Adran Achosion Brys (gan gynnwys yr Uned Achosion Brys Plant)</p> <p>Mae'r cynllun yn cynnwys: 7.0 nyrs bediatrig gofrestrdig cyfwerth ag amser cyflawn (wedi'u recriwtio drwy broses symleiddio strwythur)</p>	<p>Pennaeth Nyrsio - Yr Adran Achosion Brys</p> <p>Metron Dros Dro - Yr Adran Achosion Brys</p>	<p>20/12/2022 - i'w drafod yn ystod yr Adolygiad Perfformiad Is-adrannol nesaf</p> <p>PROSES RECRIWTIO WEDI'I CHWBLHAU Disgwylir i bob nyrs fod yn ei swydd erbyn 28/02/2023 ac y bydd hefyd wedi cwblhau proses sefydlu a hyfforddi leol yn llawn</p> <p>Mae unrhyw aelod o'r staff sy'n aros am ei gofrestriad "pin" yn gweithio fel ETA yn yr Adran Achosion Brys</p>

23. Yn yr Adran Achosion Brys, rhaid i'r Bwrdd Iechyd sicrhau y caiff digon o staff yn yr Adran Achosion Brys eu hyfforddi mewn sgiliau Cynnal Bywyd Uwch i fodloni'r galw.

*Mae Cyngor Dadebru'r DU yn annog rhaglen hyfforddi wyneb yn wyneb deuddydd o hyd ar gyfer Cynnal Bywyd Uwch ac yn nodi y dylid ailardystio ar ôl 4 mlynedd.*

*Mae nyrsys cofrestredig â thros 18 mis o brofiad gwaith yn gymwys i gael yr hyfforddiant hwn.*

**Sicrhau bod y lefelau cydymffurfiaeth cyfredol o ran Cynnal Bywyd Uwch ar gyfer Staff Nyrsio yn bodloni'r meini prawf ar gyfer hyfforddiant**

Sicrhau bod system fonitro gadarn ar waith i gynnal y lefelau hyfforddiant sgiliau gofynnol yn yr Adran Achosion Brys

Cydgysylltydd  
Hyfforddiant yr Adran Achosion Brys - Metron Dros Dro - Yr Adran Achosion Brys

Dirprwy Bennaeth Nyrsio - Yr Adran Achosion Brys / Arweinydd Clinigol - Yr Adran Achosion Brys

**30/04/2023**

Y gyfradd gydymffurfiaeth cyfredol ar gyfer hyfforddiant ar gyfer staff nyrsio = 43% ac mae hyfforddiant wedi'i drefnu ar gyfer 7% arall ym mis Tachwedd 2022. Nodwch nad yw Cyngor Dadebru'r DU wedi cyhoeddi dyddiadau hyfforddiant ar gyfer mis Rhagfyr 2022 ymlaen ar adeg cyflwyno'r cynllun gweithredu hwn (Tachwedd 2022).

		<p><i>O ganlyniad i broblemau trosglwyddo data o fewn systemau Cofnodion Staff Electronig, NID yw staff meddygol ar hyfforddiant cylchdro, sydd wedi cwblhau hyfforddiant gorfodol mewn sefydliadau eraill, yn cael eu trosglwyddo i'w swyddi newydd.</i></p> <p>Sicrhau y caiff cofnodion hyfforddiant lleol ar gyfer Cynnal Bywyd Uwch eu cadw drwy drafod â'r gweithlu meddygol cylchdro hyd nes y bydd y system Cofnodion Staff Electronig yn gallu trosglwyddo data mwy cadarn ar hyfforddiant ar ffurf electronig.</p>	<p>Arweinydd Clinigol - Yr Adran Achosion Brys</p>	<p>Cyn gynted ag y caiff y dyddiadau eu rhyddhau, caiff hyfforddiant ei drefnu ar gyfer y staff fel y bo'n briodol.</p> <p>30/02/2023</p>
<p>24. O ystyried rhai o ganfyddiadau'r adroddiad hwn, dylai'r Bwrdd lechyd ystyried cynyddu ei drefniadau ar gyfer goruchwyllo gweithgareddau archwilio perthnasol.</p>		<p>Caiff Fframwaith Sicrhau Ansawdd presennol y Bwrdd lechyd ar gyfer ymweliadau dirybudd ei ddiwygio i'w ddefnyddio mewn Adrannau Achosion Brys</p>	<p>Pennaeth Ansawdd a Diogelwch y Bwrdd lechyd</p>	<p>Erbyn 31/12/2022 Disgwylir i'r ddogfen gael ei chymeradwyo yng nghyfarfod Grŵp Diogelwch Cleifion y Bwrdd lechyd - Rhagfyr 2022</p>

	<p>Caiff canlyniadau mewnol y Bwrdd Iechyd eu monitro'n fisol drwy Grŵp Diogelwch Cleifion a Chydymffurfiaeth y Bwrdd Iechyd</p>	<p>Pennaeth Ansawdd a Diogelwch y Bwrdd Iechyd</p>	<p>WEDI'I GWBLHAU Gofyniad monitro yn nhempeld adrodd safonol y Grŵp Gwasanaeth - gweler y diweddariad isod ar ddatblygu templed</p> <p>WEDI'I GWBLHAU</p>
	<p>Rhoddir diweddariad ffurfiol i Grŵp Diogelwch Cleifion y Bwrdd Iechyd ar bob adroddiad sicrwydd (mewnol ac allanol)</p> <p>Caiff Strategaeth Ansawdd y Bwrdd Iechyd ei datblygu</p>	<p>Pennaeth Ansawdd a Diogelwch y Bwrdd Iechyd</p> <p>Pennaeth Ansawdd a Diogelwch y Bwrdd Iechyd</p>	<p>DAETH YR YMGYNGHORIAD I BEN 17/10/2022 I'w lansio fis Ionawr 2023</p> <p>WEDI'I GWBLHAU</p>
	<p>Cynnal adolygiad o fewn Grŵp Gwasanaeth Treforys i sicrhau bod llinellau atebolrwydd clir i strwythur Ansawdd a Diogelwch diwygiedig y Bwrdd Iechyd (a</p>	<p>Pennaeth Grŵp Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad y Claf</p>	

		<p>weithredwyd ym mis Mehefin 2022)</p> <p>Datblygu dulliau adrodd safonol i gefnogi Grŵp Diogelwch Cleifion a Chydymffurfiaeth y Bwrdd Iechyd.</p> <p>Datblygu dulliau adrodd safonol i gefnogi Grŵp Canlyniadau ac Effeithiolrwydd Clinigol y Bwrdd Iechyd.</p>	<p>Pennaeth Grŵp Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad y Claf</p> <p>Pennaeth Grŵp Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad y Claf</p>	<p>AR FFURF DRAFFT GWEITHREDOL Yn aros i'w gymeradwyo'n derfynol - Rhagfyr 2022 yn unol ag amserlenni'r Bwrdd Iechyd</p> <p>AR FFURF DRAFFT GWEITHREDOL Yn aros i'w gymeradwyo'n derfynol - Rhagfyr 2022 yn unol ag amserlenni'r Bwrdd Iechyd</p>
<p>25. Anogir y Bwrdd Iechyd i sicrhau bod sianeli cyfathrebu priodol a pharhaus ar gael i'r staff roi adborth.</p>		<p>Mae'r canlynol ar waith ar hyn o bryd ac ar gael i staff yr Adran Achosion Brys</p> <p><b>POLISI DRWS AGORED</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae Uwch-nyrs yn rhan o bob cyfarfod trosglwyddo</li> <li>• “Gwahoddiad agored” y Fetron Dros Dro</li> </ul> <p><b>MENTORA</b></p>	<p>Metron Dros Dro - Yr Adran Achosion Brys / Metron ISSG</p>	<p>WEDI'I GWBLHAU Adolygwyd strwythur cyfarfodydd yr Adran Achosion Brys ac fe'i hail-lansiwyd</p> <p>Adolygwyd strwythur cyfarfodydd yr Uned Gwneud Penderfyniadau Llawfeddygol</p>

- Mae cynllun “Cyfeillio” ar waith ym MHOB ardal glinigol i aelodau newydd o'r staff neu pan ofynnir amdano

#### **DADFRIFFIO**

- Mae dros 30 o Hyrwyddwyr Llesiant wedi'u hyfforddi yn yr Adran Achosion Brys (ar draws gwahanol rolau a gwahanol raddau)
- Mae saith ymarferydd TRiM hyfforddedig yn yr Adran Achosion Brys (ar draws gwahanol rolau a gwahanol raddau)

#### **CYFARFODYDD STAFF**

- Cyfarfod Adrannol cyffredinol bob mis
- Cyfarfodydd Band 7 ddwywaith y mis
- Lansiyd cyfarfod Band 6 bob mis
- Lansiyd cyfarfod Band 5 bob mis
- Lansiyd cyfarfod EDA bob mis



- Lansiwyd cyfarfod rheolaidd i Bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol

#### **CYLCHLYTHYR**

- Cylchlythyr Adrannol bob mis

#### **LLESIANT**

Lansiwyd Banc Bwyd yr Adran Achosion Brys - “Mother Hubbard’s Cupboard” - er mwyn helpu staff a allai fod yn ei chael hi’n anodd

Mae'r canlynol ar waith ar hyn o bryd ac ar gael i staff yr Uned Gwneud Penderfyniadau Llawfeddygol

#### **POLISI DRWS AGORED**

- Mae Uwch-nyrs yn rhan o bob cyfarfod trosglwyddo
- “Gwahoddiad agored” y Fetron Dros Dro

#### **CYFARFOD UNED**

- Cynhelir gan ddefnyddio TEAMS i sicrhau y gall cynifer â phosibl gymryd rhan “WHATSAPP”

- 
- |  |  |  |  |  |
|--|--|--|--|--|
|  |  | <ul style="list-style-type: none"><li>• Sgwrs tîm lle mae rhywun ar gael bob amser</li></ul> |  |  |
|--|--|--|--|--|
- 

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

### **Cynrychiolydd y gwasanaeth**

**Enw (priflythrennau): Ceri Matthews**

**Swydd: Cyfarwyddwr Nyrsio Dros Dro, Grŵp Gwasanaeth Treforys**

**Dyddiad: 17/11/2022**